

Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR SWAIDESTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR SWAIDESTREF SIROL
wrecsam

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD MERCHER, 11EG MEDI, 2019

Lleoliad

Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679490

cabinet@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 05/09/19)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Cynghorydd Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Cemlyn Rees Williams	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rosalind Williams	Eglwys yng Nghymru
Haf Williams	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

Swyddogion Heb Bleidlais

Rhys Howard Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Karen Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Claire Homard	Cyngor Sir y Fflint
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd

Swyddogion yn bresennol

Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Sion Huws	Awdurdod Lletyol
Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Susan Owen Jones	Rheolwr Busnes GwE
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Gareth Williams	Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE

Sylwedydd

R H A G L E N

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A GYNHALIWDYD AR Y 8 GORFFENNAF 2019 5 - 8

(copi wedi ei atodi)

6. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL 9 - 74

Dafydd L Edwards i gyflwyno –

- Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;
- Llythyr Cynrychiolaeth.

(linc fideo i swyddfa Deloitte)

7. TARGED ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 75 - 77

Arwyn Thomas i ofyn am gymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor i gadarnhau cynllun gweithredu'r targed arbedion effeithlonrwydd.

8. CYLLDIEB GWE 2019-20 - ADOLYGIAD CHWARTER 1 78 - 82

Arwyn Thomas a Dafydd L Edwards i ddiweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2019/20

9. CYNLLUN BUSNES 2019-20 - MONITRO CHWARTER 1 83 - 108

Arwyn Thomas i gyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 1 - Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor

**10. PAPUR TRAFOD - ADRODD AR BERFFORMIAD O FEDI 2019 109 - 115
YMLAEN**

Arwyn Thomas yn adrodd ar berfformiad o Fedi 2019 ymlaen

CYD-BWYLLGOR GWE DYDD LLUN, 8 GORFFENNAF 2019

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr: Phil Wynn (Cadeirydd - Cyngor Bwrdeistrefol Sirof Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirof Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Aelod Cyfetholedig heb Bleidlais:

Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd)

Swyddogion heb bleidlais: Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirof Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistrefol Sirof Conwy).

Swyddogion yn bresennol: Iwan Evans (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Hefin Owen (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Hywyn Jones (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (GwE), Bethan Roberts (GwE), Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd).

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod mis Medi.

2. YMDDIHEURIADAU

Cyn mynd at i dderbyn yr ymddiheuriadau croesawyd Cyng. Julie Fallon i'w chyfarfod cyntaf a diolchwyd i'r Cyng. Garffild Lewis am ei gyfraniad dros y cyfnod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Ian Roberts, Arwyn Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Claire Homard (Cyngor Sir y Flint), Dafydd L Edwards (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Sion Huws (Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Mai 2019 fel

rhai cywir.

Ychwanegwyd o ran eitem 'Cyfrifon GwE' - gan fod un o Gyfarwyddwyr Cynorthwyol GwE yn gadael ei swydd ni fydd y swydd yn cael ei hail-lenwi fel y bydd modd cwrdd â'r toriadau sydd eu hangen am eleni. Ychwanegwyd y bydd adroddiad yn dod ger bron yn fuan i nodi hyn yn llawn.

6. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2018/19

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2018/19

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fod Cydbwyllgor o fwy nac un awdurdod yn gorff Llywodraeth Leol, ac fod Adran 13 o'r ddeddf yn mynnu bod Cydbwyllgor yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwilwyr annibynnol. Ychwanegwyd fod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn nodi ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chod CIPFA ar gyfer Cydbwyllgor. Pwysleisiwyd fod adroddiad "alldro" syml a chryno wedi ei gyflwyno ym mis Mai ac yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau llywodraethu. Ategwyd y bydd y datganiad yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte ac amlinellwyd y bydd adroddiad 'ISA 260' yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor ar 11 Medi 2019.

Tynnwyd sylw at rhai agweddau o'r datganiad gan gynnwys y Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod y Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cydbwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod yr ymrwymiad wedi cynyddu yn 2018/19.

Amlygwyd fod newid mawr o ran Dyledwyr Tymor Byr am eleni yn bennaf o ganlyniad i arian nifer o grantiau wedi cyrraedd yn ystod, yn hytrach nag ar ôl, diwedd y flwyddyn ariannol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd pam fod gwariant Eiddo wedi cynyddu cymaint eleni wrth gymharu gyda llynedd - nodwyd fod hyn gan fod GwE wedi symud i adeilad newydd ychydig drytach yn yr Wyddgrug, ond bod modd cynnal fwy o hyfforddiant yn yr adeilad newydd, sy'n galluogi GwE i ddenu incwm. Nodir bod y mater eisoes wedi'i amlygu wrth sefydlu cyllideb 2019-20 yng nghydbwyllgor GwE mis Chwefror 2019.
- Holwyd pam bod y nifer o staff derbyniodd tal dros £60,000 wedi cynyddu wrth gymharu gyda llynedd – Nodwyd bod y trothwy £60,000 heb newid ers blyneddoddedd er i gyflogau gynyddu gyda chwyddiant tal.
- Holwyd pam fod grantiau wedi lleihau wrth gymharu gyda llynedd - nodwyd bod grantiau un tro wedi'i dderbyn yn 2017/18 a bod toriad i'r Grant Gwella Addysg yn 2018/19.
- Trafodwyd grantiau gan fynegi fod nifer o grantiau bellach wedi eu gosod oddi fewn y Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol.
- Gofynnwyd o dan y pennawd 'GGA - Ariannu Cyfatebol' pam nad oedd Wrecsam yn cyfrannu o gwbl - nodwyd bod hyn yn fater technegol gan mai asesiad cynghorau unigol oedd pa elfen o'u harian cyfatebol y diffinnir fel datganoledig neu heb ei ddatganoli. Nodwyd nid yw'r elfen ddatganoledig yn ymddangos yng nghyfrifon GwE a bod cyfraniad gros arian cyfatebol yn cymharol gyson wrth

ystyried yr elfen ddatganoledig a'r elfen heb ei ddatganoli. Cynigwyd i gyflwyno papur fyddai'n amlygu'r mater i'r cydbwyllgor nesaf os oedd dymuniad, gwrthodwyd y cynnig.

7. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2018-19

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y datganiad hwn yn cael ei gyflwyno yn flynyddol, Nodwyd fod GwE yn gyfrifol am gynnal adolygiad effeithlonrwydd o'i fframwaith Llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Gofynnwyd pwy sydd yn dal GwE yn atebol ac o ran polisiau a phenderfyniadau'r Cydbwyllgor. Manylwyd ar y drefn o lywodraethu gan nodi cyfarfodydd craffu gydag Awdurdodau Lleol, ymweliadau gan Estyn ynghyd â chyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd Rheolwr Cyfarwyddwr GwE fod yr atebolrwydd allanol yn drwm.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Holwyd faint yw gwerth yr adolygiadau i GwE a beth yw cost eu cynnal. Gofynnwyd a oes trefn well y gallai GwE ei ddefnyddio fel eu bod yn osgoi'r gost.
- Mynegwyd fod GwE yn gorff eithaf ifanc ac yn drefn partneriaeth, felly mae rheoleiddio aml i sicrhau fod y gwaith partneriaeth yn gweithio.
- Nodwyd fod adroddiadau allanol yn bwysig a bod cylch awdurdodau lleol a rhanbarthol yn dynn.

8. COFRESTR RISG

PENDERFYNIAD

Derbyn y gofrestr risg ddiweddaraf.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd y gofrestr risg gan nodi fod y ddogfen yn un byw sydd yn cael ei ddiweddarau yn gyson. Mynegwyd fod addasiadau wedi ei gwneud ac awgrymwyd tynnu rhai risgiau allan o'r gofrestr. Ychwanegwyd bod y gofrestr yn cael ei hadolygu yn chwarterol gan y Cydbwyllgor.

9. DATBLYGU MODEL YMGYSYLLTU A CHYMHEIRIAID YNG NGOGLEDD CYMRU

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo datblygu model Ymgysylltu â chymheiriaid yng ngogledd Cymru, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod disgwyliad i ysgolion fod yn hunan-wella ac yn cyd-weithio gydag ysgolion eraill er mwyn codi safonau a lleihau'r bwch cyrhaeddiad. Mynegwyd y bydd categorieiddio ysgolion yn parhau am flwyddyn arall.

Nodwyd fod yr adroddiad yn ceisio nodi patrwm posib ar gyfer datblygu model ymgysylltu â chymheiriaid. Ychwanegwyd fod y dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio mewn clwstwr. Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal droeon yn y Cydbwyllgor am ba mor gymhleth fydd yw'r holl newidiadau mewn ysgolion. Er hyn mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

Mynegwyd fod y model yn blaenoriaethu ysgolion ac wedi ei greu ar y cyd gydag ysgolion. Nodwyd fod yr egwyddorion wedi eu creu gyda Phenaethiaid a bod bron i 300 o benaethiaid wedi dangos diddordeb i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod creu'r model yma yn angenrheidiol. Drwy roi arian i glystyrau bydd yn rhoi'r cyfle iddynt benderfynu ar sut i benderfynu ar eu blaenoriaethau.
- Nodwyd fod 2020/21 yn flwyddyn ble na fydd arolygiadau Estyn yn cael eu cynnal. Bydd fframwaith arolygu newydd yn ystod 2021 a fydd wedi ei seilio ar gymheiriaid a chydweithio.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30y.b a daeth i ben am 11:30y.b

CADEIRYDD



CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	11 Medi 2019
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;• Llythyr Cynrychiolaeth.
ARGYMHELLIAD	Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 8 Gorffennaf 2019 o Gyd-Bwyllgor GwE:

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2. CYFRIFON 2018/19

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2018/19 i'r cyfarfod 22 Mai 2019 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro", â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2018/19 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol i'r cyfarfod 8 Gorffennaf 2019.

3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Deloitte, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte. Gweler bod paragraff 8 yn nodi "Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol".

4. CYFRIFON TERFYNOL 2018/19

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2018/19. Mae'r materion â godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau, sef –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2018/19 (yn dilyn archwiliad)

6. LLYTHYR CYNRYCHOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.

7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 - 5
Datganiad Cyfrifoldebau	6
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	7
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	8
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	9
Y Fantolen	10
Datganiad Llif Arian	11
Nodiadau i'r Cyfrifon	12 - 34
Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	35 - 43
Geirfa	44 - 45
Adroddiad yr Archwilydd	46 - 47

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2018/19 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 7 i 34. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2018/19*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2018/19 :

Conwy	15.39%
Dinbych	15.22%
Fflint	22.65%
Gwynedd	17.61%
Ynys Môn	10.21%
Wrecsam	18.92%
Cyfanswm	100%

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2019.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2018/19 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE

Gweledigaeth GwE yw fod ganddynt:

“Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion”.

Mae Cynllun Busnes y GwE, yn adnabod amcanion sefydlwyd i gyfarfod eu blaenoriaethau, ac mae ar gael yn: <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2018/02/Cynllun-Busnes-2017-20.pdf>

Strategaeth Ariannol

Sefydli'r gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig, er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i'r GwE, gan ei alluogi i gynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysio/amhriodol o ran y buddion i'r dinesydd, ac wedi sefydlu cyfundrefn ar gyfer adnabod arbedion a thoriadau cyllidol.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gosod y sylfaen ar gyfer ei flaenoriaethau, ac ar gael yn:

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=243&mid=2494&ver=4&>

Perfformiad 2018/19

Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gael yn:

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=243&mid=2896&ver=4&>

Perfformiad Ariannol 2018/19

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £16,534k yn ystod 2018/19, gyda'r sefyllfa net yn £469k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2018/19 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2019. Gofynnwyd am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o (£19k) i reserf penodol.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 8 a 9 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad. Ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant ar Weithgareddau	16,060	16,046	(14)
Incwm			
Cyfraniadau'r Cyngorau ar gyfer gwasanaeth craidd:			
Conwy	(633)	(633)	0
Dinbych	(626)	(626)	0
Fflint	(932)	(932)	0
Gwynedd	(725)	(725)	0
Ynys Môn	(420)	(420)	0
Wrecsam	(778)	(778)	0
Incwm Arall	(11,946)	(11,951)	(5)
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(19)	(19)

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o’r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a’r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i’r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	*Addasiad Trawsddodiad	Gwariant Net i’w Ariannu gan falansau’r Gronfa Gyffredinol	*Addasiadau rhwng y sail Ariannu a’r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£’000	£’000	£’000	£’000	£’000
Gwariant	16,046	(174)	15,872	662	16,534
Incwm	(16,065)	0	(16,065)	0	(16,065)
Cost Gwasanaethau Net	(19)	(174)	(193)	662	469

* Mae’r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at gyfraniad i ac o reserfau, a’r golofn Addasiadau rhwng sail Ariannu a’r sail Cyfrifo yn cyfeirio at addasiadau technegol pensiynau ac absenoldebau cronodig.

• **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae’r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £1,313k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad blynyddol o’r asedau buddion diffiniedig net, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £16,065k mewn grantiau a chyfraniadau a’r gwariant cyfatebol (Nodyn 21). Lleihad o £983k o’i gymharu â 2017/18.

• **Materion Eraill**

- Mae problemau yn y sefyllfa ariannol fyd-eang wedi parhau yn y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu’n angenrheidiol i’r Cyd-Bwyllgor gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o’r Undeb Ewropeaidd, bu cryn ansicrwydd economaidd. Disgwylir i hyn barhau am gyfnod a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ddarpariaethau o £3k a reserfau a glustnodwyd o £341k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o’r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9 a 14.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad net yn deillio o’u cyfran o asedau ac ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae’r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae’r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £2,156k i £8,904k yn 2018/19. Gweler Nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw’r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau’r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli’r effaith tymor hir bydd symudiad o’r fath yma ym mhrisiau’r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Bydd y prisiau teirblynyddol yn darparu darlun mwy dibynadwy o’r sefyllfa erbyn 31 Mawrth 2020.

Llywodraethu

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediadau effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 12.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig sydd yn berthnasol i offerynnau ariannol a chydabod incwm.

Nid oes prin unrhyw effaith yn deillio o'r cyfarwyddyd ychwanegol perthnasol i gydnabod incwm o gontractau gyda cwsmeriaid SAARh 15 Incwm o Gontractau gyda Cwsmeriaid, gan fod y gofynion newydd yn gyson gyda egwyddorion cydnabod incwm presennol y Cyd-Bwyllgor.

Yn yr un modd, nid oes prin unrhyw effaith yn deillio o'r cyfarwyddyd ychwanegol ar SAARh 9 Offerynnau Ariannol.

GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Hywyn Lewis Jones
Uwch Gyfrifydd
01286 679145

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

11 Medi 2019

Y Cyngorydd Phil Wynn
Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GWE

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

04 Medi 2019

Tud. 17

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2017/18			2018/19			
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
4,008	226	4,234	Gweithwyr	4,264	662	4,926
181	0	181	Eiddo	297	0	297
146	0	146	Cludiant	193	0	193
2,155	0	2,155	Gwasanaethau a Chyflenwadau	2,558	0	2,558
11,302	0	11,302	Trydydd Parti	8,560	0	8,560
(17,045)	0	(17,045)	Incwm	(16,065)	0	(16,065)
747	226	973	Cost Gwasanaethau	(193)	662	469
0	0	0	Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0
0	183	183	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	191	191
0	0	0	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0
747	409	1,156	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(193)	853	660
(895)			Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(148)		
747			(Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(193)		
(148)			Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	(341)		

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2017/18			2018/19			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
4,234	0	4,234	Gweithwyr	4,926	0	4,926
181	0	181	Eiddo	297	0	297
146	0	146	Cludiant	193	0	193
2,155	0	2,155	Gwasanaethau a Chyflenwadau	2,558	0	2,558
11,302	0	11,302	Trydydd Parti	8,560	0	8,560
0	(17,045)	(17,045)	Incwm	0	(16,065)	(16,065)
18,018	(17,045)	973	Cost Gwasanaethau	16,534	(16,065)	469
0	0	0	Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0
183	0	183	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	191	0	191
0	0	0	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0
18,201	(17,045)	1,156	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	16,725	(16,065)	660
		(601)	Ailfesuriadau o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net			1,313
		(601)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			1,313
		555	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			1,973

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng ennillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		Gwybodaeth ychwanegol		Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau			
Nodyn		Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi	Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd	Balans Cronfa Gyffredinol	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Balans 31 Mawrth 2017 a ddygwyd ymlaen	0	(895)	(895)	(895)	7,019	6,124
	<u>Symudiad mewn reserfau yn 2017/18</u>						
	(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	1,156	0	1,156	1,156	0	1,156
	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	(601)	(601)
	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,156	0	1,156	1,156	(601)	555
	Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	(409)	0	(409)	(409)	409	0
8	(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	747	0	747	747	(192)	555
	<i>Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd (Cynnydd)/Gostyngiad yn 2017/18</i>	(747)	747	0	0	0	0
		0	747	747	747	(192)	555
	Balans 31 Mawrth 2018 a ddygwyd ymlaen	0	(148)	(148)	(148)	6,827	6,679
	<u>Symudiad mewn reserfau yn 2018/19</u>						
	(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	660	0	660	660	0	660
	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	1,313	1,313
	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	660	0	660	660	1,313	1,973
	Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	(853)	0	(853)	(853)	853	0
8	(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(193)	0	(193)	(193)	2,166	1,973
	<i>Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd (Cynnydd)/Gostyngiad yn 2018/19</i>	193	(193)	0	0	0	0
		0	(193)	(193)	(193)	(2,166)	1,973
	Balans 31 Mawrth 2019 a ddygwyd ymlaen	0	(341)	(341)	(341)	8,993	8,652

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau/(ymrwymïadau) net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y reserve Ailbrïso), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2018 £'000	<i>Nodyn</i>	31 Mawrth 2019 £'000
1	Dyledwyr Tymor Hir	0
1	Asedau Tymor Hir	0
4,310	Dyledwyr Tymor Byr	265
271	Arian a Chyferthoedd Arian	2,872
4,581	Asedau Cyfredol	3,137
(4,246)	Credydwyr Tymor Byr	(2,421)
(3)	Darpariaethau Tymor Byr	(3)
(264)	Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	(461)
(4,513)	Ymrwymïadau Cyfredol	(2,885)
(6,748)	Ymrwymïad Pensiwn	(8,904)
(6,748)	Ymrwymïadau Tymor Hir	(8,904)
(6,679)	Asedau Net	(8,652)
(148)	Reserfau Defnyddiadwy	(341)
6,827	Reserfau na ellir eu defnyddio	8,993
6,679	Cyfanswm Reserfau	8,652

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu a buddsoddi, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-llif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol.

2017/18		Nodyn	2018/19
£'000			£'000
1,156	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		660
(882)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (<i>credydwyr, dyledwyr a pensiwn</i>)	17	(3,260)
274	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(2,600)
(2)	Gweithgareddau Buddsoddi		(1)
272	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian		(2,601)
(543)	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(271)
(271)	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd		(2,872)

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2018/19 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2019. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018/19* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2018/19*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiâu perthnasol yn unig.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymryd lle, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y Cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn anhebygol o gael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyferwerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

I.4 Buddiannau Gweithwyr

I.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniat yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi yn eu lle, y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-p-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.4% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi yn eu lle'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh 19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau wedi dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail Groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Dosberthir y darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'Reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

NODYN 1 – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy'. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Còd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred ar y Cyd.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig sydd yn berthnasol i offerynnau ariannol a chydabod incwm.

Nid oes prin unrhyw effaith yn deillio o'r cyfarwyddyd ychwanegol perthnasol i gydnabod incwm o gontractau gyda cwsmeriaid SAARh 15 Incwm o Gontractau gyda Cwsmeriaid, gan fod y gofynion newydd yn gyson gyda egwyddorion cydnabod incwm presennol y Cyd-Bwyllgor.

Yn yr un modd, nid oes prin unrhyw effaith yn deillio o'r cyfarwyddyd ychwanegol ar SAARh 9 Offerynnau Ariannol.

NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Còd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Còd 2019/20:-

Addasiadau i SCRh 40 Eiddo Buddsoddi: *Trosglwyddiad Eiddo Buddsoddi.*

Gwelliannau Blynyddol i Safonau SAARh Cylchred 2014-2016.

PDAARh 22 *Cydnabyddiaeth Ymlaen Llaw a Thrafodion Arian Tramor.*

PDAARh 23 *Ansicrwydd parthed Triniaeth Treth Incwm*

Addasiadau i SAARh 9 *Offerynnau Ariannol: Nodweddion Blaendaliadau gydag lawndal Negyddol*

Mae'n ofynnol fod y Còd yn weithredol o 1 Ebrill 2019 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2018/19, a does dim disgwyl i'r safonau newydd na'r newidiadau o fewn Còd Ymarfer 2019/20 gael effaith sylweddol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau yr asedau ac ymrwymïadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafuniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiad proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae effaith penderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeidd yn parhau i fod yn aneglur. Er hynny, mae'r Cyngor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyngor.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymïadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2019 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae gwbyodaeth bellach ar gael yn Nodyn 24 a 25

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £1,313k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r asedau buddion diffiniedig net yn y maes penisynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £16,065k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21). Lleihad o £983k o'i gymharu â 2017/18.

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2018/19	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Gweithwyr	0	652	10	662
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	652	10	662
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	191	0	191
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	843	10	853

2017/18	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Gweithwyr	0	221	5	226
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	221	5	226
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	183	0	183
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	404	5	409

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau** – mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan yr Awdurdod fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi** – y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau** – mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a ennillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi** – mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol gogyfer a gwahaniaethau amseru am bremymau a disgownt.

NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2018/19		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(1,437)	1,437
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	594	(594)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(10)	10
Cyfanswm Addasiadau	(853)	853

2017/18		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(1,281)	1,281
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	877	(877)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(5)	5
Cyfanswm Addasiadau	(409)	409

NODYN 9 – TROSLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

Reserfau a Glustnodwyd

	Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE £'000
Balans 31 Mawrth 2018	148
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Mewn	193
Allan	0
Balans 31 Mawrth 2019	341

NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2017/18		2018/19
£'000		£'000
183	Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	191
183	Cyfanswm	191

NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2019 £'000
Symiau Derbyniadwy Masnach	319	142
Blaendaliadau	75	49
Symiau Derbyniadwy Eraill	3,916	74
Cyfanswm	4,310	265

Yn dilyn addasiadau i'r Côt Ymarfer, mae ffigyrau 2017/18 wedi eu hail-gategoreiddio o fewn cyfanswm y ffigyrau i gydymffurfio â'r gofynion newydd.

NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod neu orddrafft banc wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2019 £'000
Arian Mewn Llaw	271	2,872
Arian a Chyferthoedd Arian	271	2,872
Gorddrafft Banc	0	0
Cyfanswm	271	2,872

NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2019 £'000
Symiau Taladwy Masnach	473	417
Symiau Taladwy Eraill	3,773	2,004
Cyfanswm	4,246	2,421

Yn dilyn addasiadau i'r Côd Ymarfer, mae ffigyrau 2017/18 wedi eu hail-gategoreiddio o fewn cyfanswm y ffigyrau i gydymffurfio â'r gofynion newydd.

NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi ac wedi ei gynnwys yn Nodyn 9.

	Balans ar 31 Mawrth 2018 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2019 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd	(3)	0	0	(3)
	(3)	0	0	(3)

Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

NODYN 15 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2018		31 Mawrth 2019
£'000		£'000
(6,748)	Reserf Pensiynau	(8,904)
(79)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(89)
(6,827)	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(8,993)

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r rhwymedigaeth yn diweddar i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu ariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r Gronfa Bensiwn neu yn y diwedd talu pensiwn ble mae'n bennaf gyfrifol. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enilledig gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol ble mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2017/18		2018/19
£000		£000
(6,945)	Balans 1 Ebrill	(6,748)
601	Ailfesuriad o'r (ymrwymadau) / asedau buddion diffiniedig net (Nodyn 25)	(1,313)
(1,281)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,437)
877	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiwnwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	594
(6,748)	Balans 31 Mawrth	(8,904)

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy Gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2017/18		2018/19
£000		£000
(74)	Balans 1 Ebrill	(79)
(5)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronïadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(10)
(79)	Balans 31 Mawrth	(89)

NODYN 17 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2017/18		2018/19
£'000		£'000
(947)	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwy	1,825
377	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	(4,045)
(404)	Ymrwymiad Pensiwn	(843)
92	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth	(197)
(882)		(3,260)

NODYN 18 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid oes yna unrhyw ddigwyddiadau gwybyddus i'w hadrodd wedi dyddiad y fantolen.

NODYN 19 – TALIADAU I SWYDDOGION

19a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer gweithwyr sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sydd gyda chyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

2017/18				Uwch Swyddogion	2018/19			
Cyfraniadau		Costau			Cyfraniadau		Costau	
Pensiwn		Eraill			Pensiwn		Eraill	
Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£	£		£	£	£	£
77,708	17,562	0	95,270	Prif Swyddog ¹	100,333	22,675	0	123,008

¹)Am y cyfnod 1 Tachwedd 2016 i 31 Mai 2017, roedd deilydd y swydd yn Bennaeth Addysg Cyngor Gwynedd ac yn gweithredu fel Rheolwr Gyfarwyddwr dros-dro i GwE ar sail rhan amser, gyda GwE yn gyfrifol am ad-dalu 80% o'r costau sef £18k yn 2017/18. Deilydd yn y swydd yn barhaol ers 1 Mehefin 2017.

19b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2018/19 a 2017/18.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:			
Nifer yn 2017-18		Nifer yn 2018-19	
Cyfanswm		Cyfanswm	
4	£60,000 - 64,999	10	
3	£65,000 - 69,999	4	

NODYN 20 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2017/18		2018/19
£'000		£'000
11	Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	11
3	Addasiad ffioedd archwilydd allanol blwyddyn flaenorol	0
14	Ffioedd Net	11

Mae Cwmni Deloitte wedi eu penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol i Gyngor Gwynedd, ac felly GwE.

NODYN 21 – INCWM GRANT

21a. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2017/18		2018/19	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru -				
Her Ysgolion Cymru	26		0	
Grant Codi Safonau	2,473		0	
Cefnogi Defnydd Iaith Anffurfiol - Plant a Phobl Ifanc	240		0	
CPCP - Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth	147		0	
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal *	844		874	
Rhwydwaith Ysgolion Arloesi	1,891		0	
Dysgu yn y Cymru Digidol (LiDW)	114		0	
Arall	144		263	
		5,879		1,137
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol ** -				
Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA)		0		7,077
Grant Gwella Addysg (GGA) *				
Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau				
Conwy	67		51	
Dinbych	343		343	
Fflint	86		86	
Gwynedd	547		547	
Ynys Môn	291		205	
Wrecsam	0		0	
Llywodraeth Cymru	4,355		2,002	
		5,689		3,234
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall				
Cyngor Chwaraeon Cymru	48		10	
Cyngor Gweithlu Addysg	339		309	
		387		319
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd				
Conwy	629		633	
Dinbych	623		626	
Fflint	927		932	
Gwynedd	722		725	
Ynys Môn	414		420	
Wrecsam	770		778	
		4,085		4,114
Arall		1,008		184
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau		17,048		16,065

*Ddim yn cynnwys grantiau nac ariannu cyfatebol wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

** Mae mwyafrif o grantiau mae GwE yn ei dderbyn yn flynyddol, gan gynnwys y Grant Gwella Addysg, wedi eu cyfuno i un grant cynhwysfawr 'Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol' yn 2018/19.

NODYN 21 – INCWM GRANT (parhad)

21b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu ella y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2019 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Byr</u>		
Rhaglen Athrawon Newydd Gymhwysu	264	344
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	0	117
Cyfanswm	264	461

NODYN 22 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenydd i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd ymarfer CIPFA.

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2018/19 a'r balansau ar 31 Mawrth 2019 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£'000	£'000	£'000
422	0	8

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cyngorwyr.

Swyddogion

Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, diddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2018/19, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrrff a nodwyd.

NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna becynnau terfynu gwaith yn ystod 2018/19 na 2017/18.

NODYN 24 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2018/19 talodd y Cyd-Bwyllgor £10k (2017/18: £10k) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 16.48%, ar gyfartaledd (2017/18: 16.48%), o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Nid oedd unrhyw gostau am hyn yn 2018/19 nac yn 2017/18. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 25.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014 ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfu o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwnau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiwnau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff y polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Pensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Cyd-Bwyllgor.

Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddion yn cael eu talu. Fodd bynnag, mae'r gost sydd rhaid ei ddangos yn erbyn Treth y Cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn. Felly, mae gwir gost buddion ar ôl cyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrthdroi allan o Gronfa Gyffredinol y Cyd-Bwyllgor trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2018			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2019		
	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymi adau) /asedau net	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymi adau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	14,702	0	14,702	15,969	0	15,969
Gwerth Presennol Ymrwymiaidau wedi eu hariannu	0	(21,647)	(21,647)	0	(22,717)	(22,717)
Gwerth Presennol Ymrwymiaidau heb eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	14,702	(21,647)	(6,945)	15,969	(22,717)	(6,748)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(1,098)	(1,098)	0	(1,246)	(1,246)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(1,098)	(1,098)	0	(1,246)	(1,246)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	392	0	392	437	0	437
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(575)	(575)	0	(628)	(628)
Cyfanswm Llog Net	392	(575)	(183)	437	(628)	(191)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	392	(1,673)	(1,281)	437	(1,874)	(1,437)
Llif Arian						
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	224	(224)	0	260	(260)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	878	0	878	568	0	568
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	(348)	348	0	(345)	345	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	15,848	(23,196)	(7,348)	16,889	(24,506)	(7,617)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	0	0	0	0	0
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	479	479	0	(2,181)	(2,181)
Profiadau Eraill	0	0	0	0	0	0
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	121	0	121	894	0	894
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	121	479	600	894	(2,181)	(1,287)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	15,969	0	15,969	17,783	0	17,783
Gwerth Presennol Ymrwymiaidau wedi eu hariannu	0	(22,717)	(22,717)	0	(26,687)	(26,687)
Gwerth Presennol Ymrwymiaidau heb eu hariannu**	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	15,969	(22,717)	(6,748)	17,783	(26,687)	(8,904)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Ar gyfer ymrwymiaidau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2019, tybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu, yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd bod 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) pan fuont farw ac y bydd eu priod (cydbreswylwyr) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r Actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheini sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfrannedd â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018. Mae'r tabl uchod yn dangos y rhaniad. Mae'r Actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2,090m ar 31 Mawrth 2019, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r GwE.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod a'r gwerth bid yn unol â gofynion SCRh19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2018				Ar 31 Mawrth 2019			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	474	0	474	3	443	0	443	2
Cynhyrchu	524	0	524	3	532	0	532	3
Ynni a Gwasanaethau	50	0	50	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	283	0	283	2	208	0	208	1
Iechyd a Gofal	811	0	811	5	1,137	0	1,137	6
Technoleg Gwybodaeth	607	0	607	4	311	0	311	2
Eraill	55	0	55	0	604	0	604	3
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	2,321	2,321	14	0	2,584	2,584	15
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	621	621	4	0	965	965	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	373	846	1,219	8	565	1,061	1,626	9
Eiddo Tramor	0	15	15	0	0	9	9	0
Cronfeydd								
Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau								
Unedol								
Ecwiti	3,242	4,867	8,109	51	3,460	5,097	8,557	48
Is-adeiladwaith	0	279	279	2	0	350	350	2
Arian a Chyfwertoedd								
Arian								
Y cyfan	601	0	601	4	457	0	457	3
Cyfanswm	7,020	8,949	15,969	100	7,717	10,066	17,783	100

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:-

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.4	2.5
Cyfradd Codiad Cyflogau*	2.4	2.5
Cyfradd Chwyddiant	2.4	2.5
Cyfradd Ddisgownt	2.7	2.4
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau	2.7	2.4
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol		
Dynion	22.0	22.0
Merched	24.2	24.2
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	24.0	24.0
Merched	26.4	26.4

*Ar gyfer ymrwymiadau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2019, tybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd bydd 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) wrth farw ac y bydd eu priod (cydbreswlydd) yn derbyn pensiwn o 50% o pensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2019 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016, dyddiad y prisiad actiwaraid mwyaf diweddar. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2019	Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2019
	%	£'000
0.5% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	11	3,018
0.5% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog	2	665
0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	9	2,290

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwylid oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn).

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2016), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2020 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, cyfeiriwch at adroddiad actiwaraid 2016, dyddiedig 31 Mawrth 2017.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2019		Parhad
	£'000	%	
Aelodau Gweithredol	19,665	73.7	23.1
Aelodau Gohiriedig	565	2.1	32.9
Aelodau Pensiynwyr	6,457	24.2	14.0
Cyfanswm	26,687	100.0	20.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu ac nad ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2016.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £568k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2020.

Yn Ebrill 2017, gwnaeth y Cyd-Bwyllgor daliad o £394k i gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer yr elfen sefydlog o gyfraniad y cyflogwr am y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Drwy wneud y taliad yma, roedd y Cyd-Bwyllgor yn elwa o raddfa cyfraniad is na'r hyn y byddai wedi ei gyfrifo fel arall.

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, gwnaed addasiad o £25,800 yn 2018/19 (£259,309 yn 2017/18) i ddod a'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraid yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraid ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad yn perthyn i gynllun pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen.

Dyfarniad Cyfreithiol achos McCloud

Pan gafodd strwythur budd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ei ddiwygio yn 2014, roedd rhai aelodau hŷn a oedd yn agos at yr oedran ymddeol arferol yn gymwys i amddiffyniadau trosiannol. Mae'r buddion a gronnwyd gan yr aelodau hyn o 1 Ebrill 2014 yn destun gwarchodaeth sy'n golygu na ddylent fod yn llai na'r hyn y byddent wedi ei dderbyn o dan y strwythur budd blaenorol. Mae'r gwarchodaeth yn sicrhau nad yw'r aelodau yma yn colli allan o gyflwyno'r cynllun newydd drwy roi iddynt y buddion gwell o'r hen gynlluniau a'r cynlluniau newydd.

Yn Rhagfyr 2018 cadarnhaodd y Llys Apêl ddyfarniad ("McCloud/Sargeant") bod amddiffyniadau trosiannol tebyg yng Nghynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân yn anghyfreithlon i wahaniaethu ar sail oedran. Ar 27 Mehefin 2019 gwrthododd y Goruchaf Lys yr hawl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i apelio. Disgwylir i oblygiadau'r dyfarniad fod yn berthnasol i'r CPLIL (a chynlluniau gwasanaeth cyhoeddus eraill) sy'n golygu bod buddion a gronnwyd o 2014 ymlaen angen eu cynyddu fel bod pob aelod, waeth beth fo'u hoedran, yn gallu elwa o'r gwarchodaeth yma. Fel arall, gellir adfer mewn ffordd wahanol, er enghraifft drwy dalu iawndal.

Mae'r Actiwari wedi ein cynghori gan fod rhagdybiaeth Cronfa Gwynedd ym mhrisiad 2016 yn gyfwerth i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, mae'r cyflog terfynol yn unol â'r Enillion Gyrfa Gyfartalog wedi'u hailbrisio (CARE) felly nid yw achos McCloud yn cael unrhyw effaith ar yr ymrwymadau penodol yng nghyfrifon GwE 2018/19.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol ag Adran 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2108.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan 6 awdurdod lleol gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion; ni all felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu perthnasol a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diwedd 31 Mawrth 2019, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

3.1 Aelodaeth

Mae'r Cynghorau wedi dod i Gytundeb i sefydlu a gweithredu GwE yn unol â'r pwerau sydd ganddynt dan Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 101 a 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys un aelod yr un o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â hawl i bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae'r Prif Swyddogion Addysg Statudol, un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru, yn aelodau heb hawl pleidleisio.

Mae un cynrychiolydd o'r Esgobaeth, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig ac un Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr yn aelodau cyfetholedig heb bleidlais.

3.2 Swyddogaethau

Mae'r Cynghorau wedi arwyddo cytundeb ar 13 Chwefror 2013 i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac maent wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletyol ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

Mae'r cytundeb yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys gwybodaeth am agweddau llywodraethu a gweinyddol y Cyd-bwyllgor. Y cytundeb yw sylfaen fframwaith llywodraethu GwE.

3.3 Egwyddorion

Drwy arwyddo'r cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:

- Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
Mewn perthynas â'r Cytundeb, bydd y Cynghorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn sicrhau bod gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd ar sicrhau bod y cydweithio'n llwyddiannus;
- Ymrwymiad a Chymhelliant
Bydd y Cynghorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;
- Sgiliau a Chreadigedd
Mae'r Cynghorau'n cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth defnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cynghorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n gweithio oddi mewn iddo;
- Perthnasau Effeithiol
Bydd rolau a chyfrifoldebau pob Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr ei gilydd;
- Datblygu ac Addasu
Mae'r Cynghorau'n cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal

proses effeithiol ar y cyd er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

- Enw Da

Mae'r Cynghorau'n cytuno, mewn perthynas â'r cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da ei gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n methu â gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

- Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Cynghorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

- Caniatâd Angenrheidiol

Mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cynghorau eraill eu bod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn; ac

- Ymrwymïadau Aelodau a Swyddogion

Bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau a'u swyddogion hwy sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithio er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cynghorau eraill.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae GwE yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.

Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lletyol y Cyd-bwyllgor. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côt Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen llywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ym mis Ionawr 2015, gofynnodd Lywodraeth Cymru i Estyn gynnal dilyniant i'r adolygiad drwy arolygu ac adrodd ar bob consortiwm yn unigol. Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn ystod y pythefnos yn dechrau 18 Ebrill 2016. Cynhyrwyd yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru ar 30 Mehefin 2016.

https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/GwE_1.pdf

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ar 6 Gorffennaf 2016 ac yna aethpwyd ati i drafod ymhellach a chyflwyno'r Cynllun Busnes Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad i'r Cyd-Bwyllgor ar 22 Medi 2016.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/360c646b-bb14-49c2-b26a-0328fcbf69fe.pdf>

Ym mis Hydref 2017 (wythnos yn cychwyn 16 Hydref 2017), ymwelodd Estyn â GwE i adolygu'r cynnydd a wnaed yn ôl yr argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad. Cafodd yr adroddiad yn dilyn yr ymweliad monitro ei gynhyrchu gan Estyn ar 16 Tachwedd 2017.

<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/GwE%20Consortium%20en.pdf>

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ar 22 Tachwedd 2017.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/59e92e08-bd75-43bd-af30-1a07e981736c.pdf>

Cafodd cynnydd GwE ei gymeradwyo gan Estyn yn dilyn ei ail ymweliad. Yn adroddiad Estyn, daethpwyd i'r casgliad bod GwE wedi cynnal adolygiad trylwyr a chynhwysfawr o'i waith a'i effaith ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth ers yr arolygiad craidd. Nodir hefyd yn yr adroddiad bod gan randdeiliaid ar bob lefel hyder cynyddol yng ngallu GwE i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol, ac y gwnaed newidiadau sylweddol i strwythurau rheoli er mwyn gwasgaru arweinyddiaeth a sicrhau llinellau atebolrwydd clir.

Barnwyd bod cynnydd yn erbyn pedwar o'r argymhellion yn dda iawn, gyda chynnydd cryf yn erbyn y ddau argymhelliad arall. Tynnodd Estyn sylw hefyd at gyflymdra sylweddol y gwelliant, gan gydnabod bod llawer wedi'i gyflawni mewn cyfnod byr iawn o amser. Mae gan GwE gynllun tair-blynedd clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, yn codi'r dyhead i gael effaith ar safonau a chyflymu ymhellach gyflymdra'r gwelliant yn ysgolion uwchradd y rhanbarth.

Mae'r ffocws bellach ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella. 'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' (YCG) yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â blaenoriaethau'r rhanbarth. Mae'r prosesau arfarnu sydd bellach ar waith yn gylchol a pharhaus, ac mae llinellau atebolrwydd clir. Nodir y blaenoriaethau cytûn a'r meysydd ar gyfer gwelliant yn 2019-20 yn adran 7 yr adroddiad hwn, ac maent yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu.

Mae amrywiol fforymau yn dwyn GwE i gyfrif yn ystod y flwyddyn, sef Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyfarfodydd cyswllt Estyn ac arolygiadau Awdurdod Lleol, Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol, Byrddau Ansawdd Sirol Awdurdodau Lleol, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor, a hynny yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd.

Yn adroddiad arolygiad Sir Ddinbych (Chwefror 2018), daeth Estyn i'r casgliad:

"caiff rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'i gonsortiw m gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) eu diffinio'n glir a'u deall yn dda gan swyddogion yr awdurdod, staff y consortiw m ac arweinwyr ysgol. Trwy uwch swyddogion, aelodau etholedig a staff GwE, caiff ysgolion yn Sir Ddinbych eu herio'n drylwyr ynglŷn â'u perfformiad, gan gynnwys y deilliannau ar gyfer disgyblion, ansawdd yr addysgu, y gofal y maent yn ei ddarparu, ac ansawdd yr arweinyddiaeth. Yn aml, caiff ysgolion eu cefnogi'n dda ac yn gymesur â'u hanghenion yn dilyn categoriedd ysgolion yn briodol.

Mae ysgolion y nodwyd eu bod yn destun pryder yn cael cymorth sylweddol, ac ymyrraeth, pan fydd angen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn gwella ar gyflymdra priodol o ganlyniad.

Caiff ysgolion eu cefnogi'n dda mewn agweddau ar flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft o ran gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ac o ran paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Gall darpar uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ac uwch arweinwyr ac arweinwyr canol presennol, elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd da i ddatblygu eu medrau arwain."

Mae cyfarfodydd Her ac Adolygu Llywodraeth Cymru, a gynhelir yn flynyddol yn ystod tymor yr hydref, yn cael eu cadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac mae'r ffocws ar berfformiad, cynnydd, cynllunio a chyllidebau yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol. Roedd y cyfarfod diwethaf yn gadarnhaol iawn a mynegwyd bod y bar wedi'i osod yn uchel, sy'n arddangos aeddfedrwydd gwleidyddol y Cyd-bwyllgor.

Ym mis Medi 2018, adolygodd Steve Munby - ymgynghorydd addysg ar arweinyddiaeth a diwygio - arferion presennol GwE a'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo, a nodwyd y meysydd a ganlyn fel cryfderau:

1. Mae'r tîm wedi meithrin hygredd gydag ysgolion. Yn fwyfwy ar lefel uwchradd, mae Penaethiaid presennol yn cefnogi GwE (naill ai ar seconddiad neu fel cynorthwyr rhan amser). Fel arfer, mae gan Ymgynghorwyr cynradd brofiad o fod yn Bennaeth.
2. Mae perthynas gref iawn gydag awdurdodau lleol, gan gynnwys y chwe arweinydd portffolio addysg.
3. Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol yn seiliedig ar angen yn hytrach nag ar ddiddordeb ac arbenigedd yr ymgynghorwyr.
4. Ar yr un pryd â chefnogi hunan arfarnu, mae gan yr adnodd G6 newydd y potensial i arbed amser i ysgolion a chyfuno'r gofynion craffu a monitro amrywiol. Mae potensial sylweddol iawn iddo.
5. Mae cynlluniau busnes mewnol yn gadarn ac yn cael eu monitro yn systematig - mae cyswllt rhwng gweithgarwch, effaith a monitro'r gyllideb. Mae hyn yn ganmoladwy.

Tud. 50

6. Mae rhai clystyrau yn gweithio'n dda iawn ac yn arddangos cydweithredu sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a chyd-gyfrifoldeb; er mai lleiafrif yw'r rhain o hyd.
7. Mae GwE i'w gymeradwyo am ei waith yn galluogi ysgolion arloesi i arddangos arweinyddiaeth gydweithredol gref yn eu clystyrau ar gyfer y cwricwlwm newydd, er mai anghyson yw hyn o hyd.
8. Mae'r system arfaethedig newydd ar gyfer dadansoddi cynnydd disgwylidig disgyblion, sydd â chyswllt â gwerth ychwanegol a ffactorau cyd-destunol, yn drawiadol iawn. Gallai helpu i symud y diwylliant oddi wrth cystadlu ag ysgolion eraill a chanolbwyntio ar ddisgyblion ffiniol tuag at ganolbwyntio ar bob disgybl a'i gynnydd.
9. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae gan y pwyslais ar ddefnyddio data bach ar gyfer gwella ysgol botensial mawr i gynyddu hyder ysgolion mewn dulliau gwella yn yr ysgol, a gall rymuso athrawon i gymryd mwy o gyfrifoldeb am wella'r dysgu a'r addysgu a chefnogi eu disgyblion yn eu dosbarthiadau/ysgolion.
10. Mae dull newydd o greu cyfarwyddiadur o arferion llwyddiannus y gellir ei rannu yn electronig. Mae gan hyn y potensial i raeadru arferion da mewn dull ymarferol.
11. Gwneir cynnydd sylweddol iawn ar ddatblygu arweinyddiaeth - wedi'i gysylltu â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth trawiadol a'r cyfeiriad newydd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL). Mae hyn yn gam mawr ymlaen ac mae potensial mawr i wella ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion.

Yn ei adroddiad, daw Steve Munby i'r casgliad:

The direction of travel that GwE has adopted is exactly the right one. Much is now in place to move things forward strongly – leadership, clear direction, culture, mission and focus, relationships, credibility with schools and local authorities, systems, quality assurance, data. Above all GwE should hold its nerve and keep doing what it is doing.

I am coming away from these two days feeling positive about the prospects for success in North Wales, in spite of the numerous challenges. The quality of the GwE team is high and the strategies are impressive. The direction of travel is the right one and the team are open to external challenge whilst determined to do the right things for the schools and the children in North Wales.

Amcanion

Mae Achos Busnes Llawn wedi ei ddarparu ar gyfer y Gwasanaeth, dyddiedig Mawrth 2012, gyda'r achos busnes yn dangos tystiolaeth bod amcanion clir wedi eu sefydlu, eu bod yn SMART a bod rhaglen waith briodol yn ei lle.

Mae Cynllun Busnes 3 Blynedd yn ei le ar gyfer y gwasanaeth sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Busnes (blyneddol) yn sicrhau bod rhaglenni gwaith priodol yn eu lle a bod adroddiadau monitro yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfodydd.

Mae cynlluniau busnes cadarn a manwl, sy'n gwbl seiliedig ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu, yn cyfrannu'n sylweddol at reoli a datblygu unigolion a thimau yn effeithiol. Mae model cynllunio a rheoli perfformiad amgenach GwE yn nodi'n glir weledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Mae cyfeiriad strategol clir a fframwaith atebolrwydd grymus yn gryfderau allweddol wrth symud ymlaen. Mae'r pwyslais cryf hwn ar atebolrwydd, yr adolygu parhaus a'r pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â blaenoriaethau yn arwain at welliant sylweddol ym mherfformiad staff GwE, perfformiad ysgolion unigol a deilliannau rhanbarthol. Mae blaenoriaethau GwE yn gydnaws â'r blaenoriaethau cenedlaethol a amlinellir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*.

Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Cyd-bwyllgor wedi ei sefydlu, gydag aelodaeth briodol.

Gwelwyd bod strwythur trefniadaethol clir ar gyfer y gwasanaeth, ond yn dilyn derbyn y model cenedlaethol newydd bu newidiadau i'r strwythur oherwydd bod newidiadau mewn disgwyliadau ar ran y Gwasanaeth.

Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi rhai o'i gyfrifoldebau, ynghyd â rhestr o aelodau'r Cyd-bwyllgor a'u hawliau pleidleisio. Mae rôl yr Awdurdodau wedi'i nodi yn y Cytundeb.

O ganlyniad i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, bu strwythur llywodraethu GwE yn destun adolygiad. Mae hyn wedi golygu creu Bwrdd Ymgynghorol a Bwrdd Rheoli ac adolygu strwythur y Cyd-bwyllgor. Mae'r cytundeb yn y broses o gael ei chwblhau yn dilyn newidiadau i'r Model Cenedlaethol

Arweinyddiaeth

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 23/05/2018
- 04/07/2018
- 26/09/2018
- 28/11/2018
- 20/02/2019

Rheolaeth Risg

Mae trefniadau trylwyr a chyfansawdd i adnabod yn fanwl gywir risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac ar gyfer rheoli'r risgiau hyn. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Caiff ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfod yr uwch dîm arweinyddiaeth, ac yn chwarterol gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol mae GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Systemau Rheoli Perfformiad

Yn unol â'r cytundeb, bydd Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol i'r Cyd-bwyllgor ac i bob Cyngor yn unigol ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflawni Swyddogaethau a Nodau Allweddol y Gwasanaeth.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2017/18 i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfod ar 23/05/2018.

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel yn rhoi sylw i bob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir gyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant a cherrig milltir clir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl ble adolygir y cynlluniau bob chwarter, gan arfarnu y cynnydd a'r effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno gan Bennaeth y gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson mewn cyfarfodydd rhwng yr Ymgynghorydd Arweiniol a'r Awdurdodau Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio'n amserol at uwch arweinwyr GwE.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

Cyllideb

Fel pawb arall, rydym yn byw mewn hinsawdd ariannol anodd iawn a rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth y Prif Weithredwyr yn y Rhanbarth ac am gyngor a chefnogaeth Aelodau Etholedig y Cyd-bwyllgor wrth wneud y penderfyniadau gorau i gefnogi ein dysgwyr a'n hysgolion.

Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ar drefniadau ariannol yn effeithiol, ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ein cefnogi wrth gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn fwyfwy effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian weithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Anghenion Defnyddiwr a Chwynion

Mae'r Gwasanaeth yn dilyn trefn gwyno Cyngor Gwynedd. Yn ystod 2018/19 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion.

Yn ogystal, mae'n bosibl i'r ysgolion roi adborth drwy'r Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i roi cefnogaeth i'r Cyd-bwyllgor yn ogystal â'u herio. Mae cynrychiolwyr priodol o ysgolion uwchradd a chynradd y 6 awdurdod yn aelodau o'r grŵp defnyddwyr.

Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn gweithredu'n effeithiol oherwydd:

- Mae ganddo'r hawl i adrodd wrth a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor ynglyn ag unrhyw fater sydd oddi mewn i sgôp swyddogaethau'r Gwasanaeth.
- Mae'r grŵp wedi cyfarfod ar y dyddiadau a ganlyn:
 - 04/05/18 (uwchradd)
 - 08/05/18 (cynradd)
 - 28/06/18 (cynradd)
 - 18/10/18 (uwchradd)
 - 24/10/18 (cynradd)
 - 28/11/18 (cynradd)
- Mae'r grŵp yn cynnwys:
 - 6 cynrychiolydd Uwchradd, un o bob Awdurdod
 - 6 cynrychiolydd Cynradd, un o bob Awdurdod
 - 1 cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
 - Llywodraethwyr Ysgol - 1 cynrychiolydd fesul Cyngor.

Polisiâu Corfforaethol

Ar ddyddiad y fantolen, mae GwE yn gweithredu o dan bolisiau corfforaethol yr awdurdod lletyol.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan GwE, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu.

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan GwE i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Sail y casgliad cyffredinol yw:

- Dull agored o ymgysylltu â rhanddeiliaid, o gynllunio gwasanaethau a'u darparu ac o adrodd am berfformiad GwE a chraffu;
- Trefniadau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a gefnogir gan drefniadau rheoli gwasanaeth a rheolaeth ariannol cadarn;
- Adrodd am flaenoriaethau ac uchelgais dealladwy, fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes GwE, ac adroddiadau cynnydd yn arddangos gwelliannau mewn deilliannau a pherfformiad ar yr un pryd â sefydlogrwydd ariannol;
- Trefniadau cadarn i gefnogi Aelodau a Swyddogion etholedig gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, a chynnal safonau proffesiynol uchel wrth weithredu ar ran GwE;
- Datblygu trefniadau ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig y gellir eu datblygu ymhellach ym 2019/20.

Serch y sefyllfa gyffredinol hon, mae'r asesiad wedi nodi gwelliannau angenrheidiol i atgyfnerthu ymhellach effeithiolrwydd y trefniadau presennol. Mae manylion ynghylch y rhain yng Nghynllun Busnes 2019/20, yn benodol Amcan Strategol 6 h.y. sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian. Adolygir cynlluniau bob chwarter, gan arfarnu cynnydd ac effaith; caiff y Cyd-bwyllgor adroddiadau am gynnydd yn eu cyfarfodydd.

Rhan 6: BARN

Mae'r cytundeb yn y broses o gael ei chwblhau yn dilyn newidiadau i'r Model Cenedlaethol

Cymeradwywyd amcanion strategol Cynllun Busnes 2019/20 drwy gyfrwng strwythur Llywodraethu ac Atebolrwydd GwE; cymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor yn ystod y cyfarfod ar 22 Mai 2019.



Swyddog Arweiniol GwE

Dyddiad: 08/07/19.

ARWYN LLOYD THOMAS

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



Cadeirydd GwE

Dyddiad: 8.7.19

CYNGHORYDD PHIL WYNN

Geirfa

Amhariad – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid croes mewn amgylchedd statudol).

Ased - Eitem o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall gollu gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu menterion diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Costau Gwasanaeth Cyfredol – Cynnydd mewn gwerth cyfredol ar ymrwymadau cynllun pensiwn diffiniedig a ddisgwyllir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwyr - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau Llywodraeth.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig – Pensiwn neu fudd ymdeoliad arall sydd ddim yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig.

Darpariaeth – Rhwymedigaeth sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i'w gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Eiddo Buddsoddi – Eiddo sydd yn bwrpasol ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer arbrisant cyfalaf, neu'r ddau.

Enillion a Cholledion Actiwaraid - Ar gyfer cynllun pensiwn diffiniedig, mae'r newidiadau mewn gwarged actiwaraid sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraid a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu mae'r rhagdybiaeth actiwaraid wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Offerynnau Ariannol - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb i'w casglu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewtblannu.

Partïon Cysylltiedig - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu i ymarfer dylanwad penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Reserfau - Swm a bennir i un ochr ar gyfer pwrpas penodol mewn un flwyddyn gaiff ei gario ymlaen i gyfarfod ymrwymïadau'r dyfodol.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu defnyddio gan bob endidau sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o safle ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiad cyllidol endidau eraill.

Ymrwymïadau – Symïau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau fydd yn orfodol i'w dalu ar ryw ben yn y dyfodol.

Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor GwE.

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 6, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyri'r yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd

Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Medi 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – **Cyd-Bwyllgor GwE**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Cyhoeddwyd: Medi 2019

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

. This document is also available in English.

Y tîm Deloitte a oedd yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith yn cynnwys Ian Howse (Partner yr Ymgysylltiad), Clare Skivens (Rheolwyr yr Ymgysylltiad) a Jonathan Saunders (Arweinydd y tîm).

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar eich datganiadau ariannol.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	5
Canlyniadau'r archwiliad	5
Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19	7
Annibyniaeth a gwrthrychedd	7

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	8
Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyd-Bwyllgor GwE	11
Atodiad 3 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19	14
Atodiad 4 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17	15

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- 2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
- 3 Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyd-Bwyllgor GwE yw £334,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
- 4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE, ar gyfer 2018-19 y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ar 30 Mai 2019, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth, ond ar y dyddiad y gwnaethom gyflwyno'r adroddiad hwn, roedd y gwaith archwilio canlynol heb ei gwblhau:
 - Clirio nodiadau adolygu;
 - Adolygiad terfynnol o ail fersiwn y cyfrifon;
 - Clirio gan adolygwr ansawdd annibynnol; a
 - Derbyn llythyr cynrychiolaeth.
- 7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r rheolwyr.

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Cynrychiolaeth i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 9 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

Canlyniadau'r archwiliad

Camddatganiadau heb eu cywiro

- 10 Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Camddatganiadau wedi ei gywiro

- 11 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi ei gywiro a ystyriwn y dylid eu tynnu i'ch sylw.

Risgiau Sylweddol

- 12 Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod ein proses gynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
<p>Incwm a gwariant grantiau</p> <p>Mae'r Pwyllgor yn cael arian grant sylweddol, a caiff y rhan fwyaf ohono ei ddsbarthu i awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae risg bod y datganiadau ariannol yn cynnwys neu'n eithrio'r arian grant hwn yn amhriodol gan y bydd angen i'r Pwyllgor asesu p'un a yw'n gweithredu fel asiant neu brif gorff.</p>	<p>Roedd fy nhîm archwilio yn deall polisi cydnabyddiaeth y Pwyllgor ar gyfer incwm a gwariant grantiau a oedd yn cynnwys adolygiad o ran p'un a oedd y Pwyllgor yn gweithredu fel prif gorff neu asiant. Gwnaethom gynnal profion manylder i gadarnhau p'un a fodlonwyd meini prawf cydnabyddiaeth.</p> <p>Ni nodwyd unrhyw faterion.</p>
<p>Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau</p> <p>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Gwnaeth fy nhîm archwilio y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull o ddadansoddi ddata i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb; • cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion siwrneli i'r cyfriflyfr ariannol;

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
	<ul style="list-style-type: none"> • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a • gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol tu allan i gwrs arferol o fusnes gan gynnwys rhai â phartïon cysylltiedig. <p>Ni nodwyd unrhyw faterion.</p>

Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

13 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Roedd y wybodaeth a roddwyd yn berthnasol, dibynadwy, cymaradwy, ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod polisiâu cyfrifyddu ac amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol heb duedd, ac yn deg a chlir.
- **Ni ddaethom ar draws anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**
- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19

- 14 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn **Atodiad 3**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 15 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
- 16 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydb berthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyd-Bwyllgor GwE sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

11 Medi 2019

Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2018-19

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.

- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyd-Bwyllgor GwE ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Mae'r sail ar gyfer dosbarthu'r Grant Gwella Addysg Ysgolion rhwng awdurdodau lleol cyfansoddol GwE yn briodol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau sydd heb ei gwyiro a nodwyd yn ystod yr archwiliad, yn unigol a gyda'i gilydd, yn anfaterol i'r datganiadau ariannol cyfan.

Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyd-Bwyllgor GwE ar 11 Medi 2019.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dafydd L Edwards

Penaeth Cyllid

Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

Cynghorydd Phil Wynn

Cadeirydd

Cyd-Bwyllgor GwE

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol at Gyd-Bwyllgor GwE

Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-bwyllgor GwE

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor GwE a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Reserfau, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Rwy'n annibynnol ar y cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyd-

Bwyllgor GwE i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyd-bwyllgor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 6, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Medi 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

Mater yn deillio 1 – Grant Gwella Addysg y Consortia Rhanbarthol – Yr Elfen Grant Gwella Addysg	
Canfyddiad	<p>GwE yw'r corff gweinyddu ar gyfer Grant Gwella Addysg y Consortia Rhanbarthol newydd, gyda elfen ohono'n cael ei ddosbarthu gan Gyngor Gwynedd (yn gweithredu fel yr awdurdod cynnal) ymysg Cyngorau eraill Gogledd Cymru (awdurdodau lleol cyfansoddol GwE). Y swm a ddyfarnwyd yn 2018-19 oedd £35,844k ac mae £26,638k ohono yn ymwneud â'r Grant Gwella Addysg (GGA) sy'n cael ei ailddosbarthu. Ailddosbarthwyd £24,636k i'r awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, a chadwyd £2,002k gan GwE. Cytunir sail yr ailddosbarthiad yn blynyddol gan Bwyllgor Rheoli GwE, trwy addasu dyraniad y flwyddyn flaenorol ar gyfer unrhyw doriadau i incwm grant o lywodraeth Cymru. Yna cadarnheir adran gyllid pob awdurdod bod y ffigurau yn cywir (rydym wedi tystio i hyn trwy adolygu ffurflenni e-bost i GwE).</p> <p>Nid yw llythyrau cynnig ffurfiol yn cael eu hanfon i bob awdurdod yn cadarnhau'r swm GGA, ond rydym wedi tystio bod ffurflenni cydymffurfio grantiau GGA yn cael eu hardystio gan bob awdurdod.</p> <p>Rydym wedi cytuno trosglwyddiadau'r gronfa i ddatganiadau banc a cyfardwyddydd talu ac rydym yn fodlon bod y dosbarthiad yn cael ei graffu gan Bwyllgor Rheoli GwE, sy'n cymmwys cynrycholwyr o bob awdurdod leol, a fyddai'n nodi camdatganiad perthnasol pe bai un. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu tystiolaethu yr eitem agenda penodol o'r Cyfarfod Pwyllgor Rheoli na chofnodion cyfarfodydd yn cadarnhau'n benodol eu bod wedi cymeradwyo'r dyraniad hwn.</p>
Argymhelliad	Argymhellir bod cyfarfodydd Bwrdd Rheoli GwE yn cynnwys eitem ar yr agenda i gytuno'n benodol ar y dosbarthiad GGA blynyddol.
Blaenoriaeth	Isel
Mantais o weithredu'r argymhelliad	I sicrhau bod ailddosbarthiad yr GGA yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli GwE, gan gadarnhau bod y dyraniad yn briodol ac yn unol â blaenoriaethau GwE a'r GGA.

Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb rheolwyr	Cytunwyd
Dyddiad gweithredu	Yn ystod 2019/20

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

Rydym yn nodi'r holl argymhellion sy'n codi o'n harchwiliad 2016-17 gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Rydym wedi dilyn y rhain i fyny yn ystod archwiliad 2017-18 ac wedi cofnodi'r canlyniadau isod.

Mater yn deillio 1 – Canfyddiadau TG	
Canfyddiad	Fel rhan o'n harchwiliad ariannol, gwnaethom ymgymryd ag arbenigwyr TG i gynorthwyo'r tîm archwilio i brofi priodoldeb systemau TG y Cyngor sy'n cael effaith uniongyrchol ar gynhyrchu'r datganiadau ariannol. Nododd yr arbenigwyr TG nifer o argymhellion a gyfathrebwyd i'r rheolwyr.
Argymhelliad	Argymhellir bod rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr TG i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu'n brydlon.
Blaenoriaeth	Isel
Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb rheolwyr	Cytunwyd a rhai agweddau wedi'u gweithredu eisoes.
Dyddiad gweithredu	Yn ystod 2018/19.
Canfyddiad 2018-19	Yn ystod archwiliad ariannol 2018-19 nododd ein harbenigwyr TG for un argymhelliad yn parhau i fod yn ddyledus o flynyddoedd blaenorol a bod pedwar argymhelliad newydd wedi'u nodi.
Statws	Yn barhau.
Ymateb rheolwyr	Mae nifer o'r argymhellion eisoes wedi cael eu gweithredu neu yn y broses o gael eu gweithredu.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 MEDI 2019

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Targed Arbedion Effeithlonrwydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Gofyn am gymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor i gadarnhau cynllun gweithredu'r targed arbedion effeithlonrwydd.

2.0 Cefndir

2.1 Roedd cyllideb 2019/20 yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru, ar 13 Tachwedd 2018, i gynnwys targed arbedion sy'n cyd-fynd â gostyngiad ariannol o 1%, yng nghyfraniadau craidd y 6 awdurdod cyfansoddol, ar ôl ychwanegu chwyddiant. Mae hyn yn gyfystyr â 3.19% o doriad termau real wrth ystyried cynnydd mewn costau.

2.3 Cynhwysir y targed arbedion effeithlonrwydd o £116,468 yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2019/20 o dan 'Arbedion i'w canfod'.

2.4 Gyda'r uchod, a'r angen am gynllun parhaol i gyllido 'arbedion i'w canfod' 2018/19, yn ogystal â'r diffygion yn y gyllideb a nodir uchod, mae angen canfod cyfanswm arbedion cronus o £206,485 yn 2019/20.

Arbedion i'w canfod - 2018/19	£37,617
Diffyg yn y gyllideb rent	£11,220
Diffyg yn y gyllideb cyflenwadau a gwasanaethau	£41,180
Arbedion i'w canfod - 2019/20	£116,468
Cyfanswm	£206,485

3.0 Cynllun Gweithredu

- 3.1 Fel yr adroddwyd yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor, ar 8 Gorffennaf 2019, penodwyd un o Gyfarwyddwyr Cynorthwyol GwE i rôl newydd mewn awdurdod lleol, ac felly gadawodd ei swydd ar ddiwedd mis Awst 2019. Cynigir i beidio â llenwi ei swydd ac, yn hytrach, tynnu'r rôl o strwythur staffio parhaol GwE. Rhydd hyn arbediad effeithlonrwydd blynyddol o £98,212 i'r gwasanaeth.
- 3.2 Ar ddiwedd mis Awst, bu lleihad mewn Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, oherwydd ymddeoliad a lleihad mewn CALI. Cynigir i beidio â llenwi'r swyddi ac, yn hytrach, tynnu cyfystyr â 1.4 CALI o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant parhaol o strwythur staffio parhaol GwE. Rhydd hyn arbediad effeithlonrwydd blynyddol o £108,273 i'r gwasanaeth.
- 3.3 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r arbedion effeithlonrwydd drwy weithredu'r uchod:

Rôl	CALI	Arbediad effeithlonrwydd (blynyddol) £
Cyfarwyddwr Cynorthwyol	1	97,456
Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant - Cynradd	1.4	108,273
Cyfanswm		206,485

4.0 Rhesymeg

- 4.1 Fel yr adroddwyd ynghynt i'r Cyd-Bwyllgor, canolbwyntir bellach ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella. Gelwir yr Ymgynghorwyr Her bellach yn 'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' (YCG), ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.
- 4.2 Yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2019, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor i ddatblygu Model Ymgysylltu â Chymheiriaid ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid yn arddel yn llawn yr egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, a hefyd yn dysgu oddi wrth arferion da yn genedlaethol a thu hwnt. Bydd ymgysylltu â chymheiriaid yn sail i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus, a dylai fod yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder. Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn hwyluso a chefnogi ysgolion yn llawn wrth iddynt ddatblygu eu modelau ymgysylltu â chymheiriaid. Datblygir y model ar y cyd â phenaethiaid a'r gwasanaeth. Fel y dywedodd Munby a Fullen (2016), yr hyn sy'n gyrru gwelliant yw'r gallu i adolygu cymheiriaid yn effeithiol, a'r ymrwymiad i wneud hynny.

5.0 Argymhelliaid

- 5.1 Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cadarnhau'r newidiadau yn y strwythur staffio parhaol, sydd felly yn rhoi modd i'r gwasanaeth fodloni'r targed arbedion o £206,485.

6.0 Goblygiadau Ariannol / Risgiau

6.1 Mae'r cynllun yn cyflawni'r targed Arbedion Effeithlonrwydd.

7.0 Effaith ar Gydraddoldeb

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Goblygiadau Personél

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

9.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

9.1 Trafodwyd y lleihad mewn staff parhaol efo Bwrdd Rheoli GwE, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

9.2 Paratowyd yr adroddiad hwn drwy ymgynghori â swyddog cyllid statudol yr awdurdod lletyol, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi cydweithio gyda Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth baratoi'r adroddiad hwn, ac rwy'n cefnogi'r cynnwys.

Eitem 8

GwE: Cydbwyllgor 11/09/19



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	11 Medi 2019
TEITL	Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad Chwarter 1af
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2019/20.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Mae adolygiad cychwynnol yma yn amcangyfrif gorwariant net o £39,229 yn erbyn y gyllideb (sefyllfa tebygol derbyniol, lled-niwtral yng nghyd-destun cyfanswm gwariant gros dros £13m), yn bennaf oherwydd y targed arbedion sydd wedi'i ddarganfod gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.
- 1.2 Mae'r adroddiad yma wedi ei ysgrifennu yn unol â'r adroddiad '*Targed Arbedion Effeithlonrwydd'*', sy'n cyflwyno cynllun gweithredu arbedion yn barhaol.
- 1.3 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 Gweithwyr:

Chwarter 1: tanwariant (£161,351).

Mae trosiant staff, yn bennaf secondiad / ymddiswyddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol wedi arwain at danwariant. Nid oes bwriad penodi olynydd, gan ariannu yn rhannol yr arbedion i'w ddarganfod (gweler 2.3).

Ymhellach, yn unol â'r adroddiad '*Targed Arbedion Effeithlonrwydd*', bwriedir lleihau niferoedd craidd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyfwerth ag 1.4 llawn amser o'r 1^{af} o Fedi 2019.

2.2 Cludiant:

Chwarter 1: tanwariant (£5,905).

Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn 2019/20.

2.3 Arbedion i'w darganfod

Chwarter 1 : Gorwariant £206,485.

Gorwariant ar adeg paratoi'r adroddiad yma, cyn i'r Cyd-Bwyllgor benderfynu ar strategaeth barhaol i wireddu'r arbedion. Defnyddir arbediad trosiant staff (gweler 2.1) i fantoli'r targed arbedion yn y tymor byr, gyda'r adroddiad '*Targed Arbedion Effeithlonrwydd*' yn cynnig dull ariannu hir dymor.

2.4 Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)

Chwarter 1 : Niwtral.

Mae'r GGYCR yn cynnwys pennawd penodol ar gyfer secondiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (gweler 2.1) am gyfnod o flwyddyn. Gan fod y secondiad wedi dod i ben ar y 31 Awst 2019, a telerau Llywodraeth Cymru yn nodi fod y arian yn benodol i'r pwrpas yma, disgwylir bydd y arian sy'n weddill yn cael ei ad-hawlio.

Dadansoddi'r grant gyflawn isod:

Datganoledig*	£26,064,004
Heb ei ddatganoli	£ 7,977,648
Cyfanswm	£34,041,652
Grant	£31,555,372
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Cyfanswm	£34,041,652

* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

3. CRONFA TANWARIANT

- 3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2019/20 oedd £278,201.
- 3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar ddiwedd 2019/20 yn £238,972, wedi ystyried y gorwariant net a ragwelir uchod.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2019/20 – Adolygiad Chwarter 1af.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.

CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2019/20 : Chwarter Cyntaf Ebrill - Mehefin 2019

	Cyllideb Agoriadol £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net £
Gwariant					
Gweithwyr					
Cyflogau					
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	975,901		975,901	877,689	(98,212)
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	3,776,051		3,776,051	3,712,912	(63,139)
- Staff ar Secoundiad	122,020	(61,132)	60,888	60,888	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,688,385)		(1,688,385)	(1,688,385)	0
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	40,897		40,897	40,897	0
Adeilad					
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	166,363		166,363	166,363	0
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(56,496)		(56,496)	(56,496)	0
Cludiant					
Costau Teithio	131,811		131,811	125,906	(5,905)
Cyflenwadau a Gwasanaethau					
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	70,080		70,080	70,080	0
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	15,841		15,841	15,841	0
Ffioedd archwilio	11,000		11,000	11,000	0
Broceru	277,230		277,230	277,230	0
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd					
Cyfreithiol	5,498		5,498	5,498	0
Adnoddau Dynol	9,428		9,428	9,428	0
Cyllid	40,770		40,770	40,770	0
Technoleg Gwybodaeth	45,092		45,092	45,092	0
Arbedion 2018/19 i'w darganfod	(37,617)		(37,617)	0	37,617
Arbedion i'w darganfod - cyllideb rhent	(11,220)		(11,220)	0	11,220
Arbedion i'w darganfod - diffyg cyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau	(41,180)		(41,180)	0	41,180
Arbedion 2019/20 i'w darganfod	(116,468)		(116,468)	0	116,468
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948		469,948	469,948	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	9,198,005	(1,220,357)	7,977,648	7,977,648	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	874,000		874,000	874,000	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Cyngorydd Strategol	100,000		100,000	100,000	0
Cyfanswm Gwariant	14,378,569	(1,281,489)	13,097,080	13,136,309	39,229

	Cyllideb Agoriadol £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net £
<u>Incwm</u>					
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd					
- Cyngor Ynys Môn (10.20%)	(416,697)		(416,697)	(416,697)	0
- Cyngor Gwynedd (17.64%)	(720,531)		(720,531)	(720,531)	0
- Cyngor Conwy (15.30%)	(624,919)		(624,919)	(624,919)	0
- Cyngor Dinbych (15.26%)	(623,132)		(623,132)	(623,132)	0
- Cyngor Fflint (22.71%)	(927,504)		(927,504)	(927,504)	0
- Cyngor Wrecsam (18.89%)	(771,761)		(771,761)	(771,761)	0
Incwm Secondiadau	(122,020)	61,132	(60,888)	(60,888)	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(9,198,005)	1,220,357	(7,977,648)	(7,977,648)	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(874,000)		(874,000)	(874,000)	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Cynghorydd Strategol	(100,000)		(100,000)	(100,000)	0
Cyfanswm Incwm	(14,378,569)	1,281,489	(13,097,080)	(13,097,080)	0
Cyfanswm Cyllideb Net	0	0	0	39,229	39,229
<u>Memorandwm -</u>					
<u>Y Gronfa Tanwariant</u>					
			Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2019		(278,201)
			Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2019/20		39,229
				Llai - Defnydd o'r Gronfa	0
			Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2020		(238,972)
<u>Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth</u>					
			Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2019		(55,479)
			Ychwaneger - Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2019/20		(15,841)
				Llai - Defnydd o'r Gronfa	0
			Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2020		(71,320)



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 Medi 2019

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Cynllun Busnes 2019-20 – Adroddiad Monitro Chwarter 1

1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 1 - Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth. Mae'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20 wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Rheoli a Chydbwyllgor GwE.

2.2 Amcanion Strategol: Mae'r cynllun busnes yn cyd-fynd ag *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru), ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
2. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
3. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
4. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.
5. Cwricwlwm trawsnewidiol
6. Busnes

- 2.3 Mae'r blaenoriaethau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ar gyfer 2019-20 wedi eu hadnabod o'r drefn hunan arfarnu a thrwy ymgynghori â phenaethiaid a'r awdurdodau lleol.
- 2.4 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- 2.5 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

3.0 Materion i'w hystyried

- 3.1 Mae'r Cynllun Busnes rhanbarthol yn gosod allan y blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r rhain ar Lefel 1, a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr yw eu cyflawni. Yn y pen draw, y Cyd-bwyllgor sy'n gyfrifol am gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.
- 3.2 Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn eistedd o dan y cynllun Lefel 1, ac ynddynt mae gwybodaeth fanylach ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn rhoi manylion ynghylch y camau gweithredu, yr allbynnau a'r meini prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes ar lefel 3 a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd, ac yn cynnig strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.
- 3.3 Ynghlwm mae adroddiad Monitro Chwarter 1 o'r Cynllun Busnes Lefel 1 sy'n darparu adroddiad cynnydd ar y camau gweithredu, y mesurau cynnydd / targedau a'r proffil gwariant.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.
- 4.2 Penderfynu a oes unrhyw agwedd benodol o'r cynllun maent am ei drafod ymhellach mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori â Wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Grwpiau Defnyddwyr GwE, Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a Chydbwyllgor GwE wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes Lefel 1.

9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Monitro Chwarter 1.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae paragraff 5 o'r adroddiad blaen yn datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol. Nodaf fod eitem arall ar y rhaglen yma'n egluro adolygiad o strwythur staff GwE fydd yn gwireddu'r targed arbedion, a bydd raid i'r gwasanaeth wynebu'r anghenion busnes yng nghydestun y cyfyngiadau ariannol anorfod.

Cynllun Busnes GwE 2019-20

Adroddiad Monitro Chwarter 1



GwEGogledd.Cymru

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

AMCAN STRATEGOL 1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

BLAENORIAETH 1.1 - CEFNOGI YSGOLION I WELLA PERFFORMIAD YN Y SECTOR UWCHRADD

Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Sicrhau bod gweithredu gyda phob ysgol yn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Well ansawdd addysgu; Well dysgu a lles; Cynllun Cymorth penodol sydd yn targedu arweiniad a chynhالياeth i leihau amrywiaethau yn ansawdd profiadau dysgu i ddysgwyr. <p>Sicrhau bod YCG y pynciau craidd yn blaenoriaethu'r angen i weithio gydag arweinwyr canol i leihau amrywiaethau oddi fewn i adrannau.</p>	<p>Mae gan bob ysgol uwchradd fynediad at raglen gymorth generig a phenodol. O ganlyniad, mae gan bob ysgol uwchradd raglen gymorth y cytunwyd arni, sy'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir o fewn cynllun gwella ysgol.</p> <p>Mae gan ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth fynediad at gymorth arbenigol ym mhob pwnc craidd. Mae strategaeth gynhwysfawr ar waith ar gyfer gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ar draws y rhanbarth.</p> <p>Gweithia Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Pynciau Craidd yn agos gyda'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt a'r Arweinydd Craidd Uwchradd, i herio a chefnogi adrannau mewn</p>		<p>Safonau ar draws amrediad o ddangosyddion yn dangos cynnydd sy'n fwy na'r cynnydd cenedlaethol.</p> <p>Cynllun Cymorth pob ysgol yn crisialu lefel a natur y gefnogaeth gaiff ei thargedu i leihau amrywiaethau.</p> <p>Gwell cysondeb yn ansawdd y profiadau dysgu i ddysgwyr ar draws yr ystod gallu.</p> <p>Arweinwyr ar bob lefel yn gweithredu yn fwy miniog a grymus wrth dracio cynnydd ac wrth graffu ar weithredu ar draws adrannau. Arweinwyr ac adrannau yn cael mynediad at arferion llwyddiannus, ac yn cael eu cefnogi i weithredu'r arferion hynny yn eu hysgol eu hunain.</p>	<p>Disgwyl am ganlyniadau Haf 2019.</p> <p>Mae'r cynlluniau cymorth i ysgolion yn diffinio'n glir sut mae adnoddau gwella ysgol yn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn meysydd â blaenoriaeth allweddol.</p> <p>Rhodddwyd rhaglen gymorth ar waith ar gyfer y pynciau craidd rhwng ysgolion uwchradd, a hynny drwy gyfrwng rhwydweithiau lleol i Benaethiaid Adran. Mae hyn yn sicrhau mynediad at arferion llwyddiannus.</p> <p>Defnyddiwyd y system 'Don' yn effeithiol i adolygu lefelau cymorth.</p> <p>Mae data lefel eitem gan bob ysgol wedi'i goladu a'i ddefnyddio i lywio'r cynllunio ar lefel adran.</p> <p>Yn ogystal, mae 27 ysgol uwchradd yn treialu system/meddalwedd <i>4Matrix</i> ble mae data yn cael ei ddefnyddio i dargedu amrywiaeth</p>		<p>Arweinwyr Craidd ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt</p> <p>Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant pynciol</p>	<p>Ebrill 2019 ymlaen</p> <p>Ebrill 2019 ymlaen</p>	<p>Craidd</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio.		oddi fewn ysgolion. Bydd ysgolion yn adrodd ar effaith yn Nhyrnor yr Hydref.	
---------------------------------------	--	------------------------------------------------------------------------------	--

BLAENORIAETH 1.2 - CYMRAEG 2050 – MILIWN O SIARADWYR

Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Sicrhau bod twf Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gynllunio'n strategol ac effeithiol drwy'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol yng Nghymru.</p> <p>Datblygu a chyflwyno rhaglen o ddysgu proffesiynol i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r arbenigedd yn y Gymraeg i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ar sail y dystiolaeth ac arferion gorau.</p> <p>Cyflwyno cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau ac i wella eu hymdeimlad o Gymreictod drwy hyrwyddo profiadau ac addysg gyfoethog drwy Siarter y Gymraeg / y</p>	<p>Bu Bwrdd Strategol Rhanbarthol y Gymraeg gyfarfod ddiwethaf yn fuan yn mis Mai. Cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd Rheoli a Chyd-Bwyllgor GwE, ac mae adolygiad o ddarpariaeth y Gymraeg yn cael ei gynnal.</p> <p>Drwy gydweithredu efo'r ALL, rhoddwyd Cyfeiriadur Hyfforddiant at ei gilydd.</p> <p>Rydym wedi hwyluso'r drefn o hyrwyddo'r cyrsiau Sabothol drwy fwletin GwE a'r ALL. Gyda'r model clwstwr newydd, sicrheir bod cyllid (os oes angen) ar gael i bob clwstwr gael hyfforddiant ar sgiliau'r Gymraeg.</p> <p>3 Cydlynnydd Siarter Iaith yn gweithio ar draws yr ALL.</p> <p>Gwnaed gwaith ar y model clwstwr.</p>		<p>Mae cynllun strategol effeithiol ar gyfer twf y Gymraeg mewn Addysg yn ei le ac ar waith.</p> <p>Bydd darpariaeth Gymraeg well a chyfranogi mewn dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn gwella ansawdd yr addysgeg Iaith Gymraeg.</p> <p>Nifer fwy o staff ysgolion yn derbyn hyfforddiant ar lefel briodol i wella eu sgiliau Iaith Gymraeg.</p> <p>Mwy o gyfleoedd cyfoethogi i blant a phobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau, a gwella eu hymdeimlad o Gymreictod.</p> <p>Mae ysgolion yn cydweithio'n effeithiol ac yn gweithio mewn clystyrau i wella'r ddarpariaeth Gymraeg gan rannu adnoddau</p>	<p>"Datblygu'r Gymraeg mewn addysg ar draws rhanbarth Gogledd Cymru 2019-22" - cwblhawyd - disgwylir am gymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli.</p> <p>38 o athrawon/cymorthyddion wedi cwblhau cwrs sabothol lefel uwch neu fynediad, mis Ebrill - Gorffennaf 2019. 14 o athrawon (cynradd, cyfrwng Saesneg) wedi cwblhau cwrs sabothol y Gymraeg mewn blwyddyn, ac 11 o athrawon wedi cwblhau cwrs dilyniant ers cwblhau'r cwrs Cymraeg mewn blwyddyn 2018-19. Wrthi'n mapio pawb sydd wedi cael mynediad at hyfforddiant sabothol dros y chwe blynedd diwethaf.</p> <p>Gyda'r model clwstwr newydd, sicrheir bod gan bob ysgol gyllid drwy ddarparu Cynllun Clwstwr e.e. er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Siarter/Cymraeg Campus. Dylai hyn hybu dilyniant a pharhad rhwng ysgolion cynradd ac</p>		Bwrdd Strategol Y Gymraeg Rhanbarthol	<p>Gorff. 2019</p> <p>Ebrill 2019 ymlaen</p> <p>Medi 2019</p>	<p>Cymraeg - datblygiad proffesiynol</p> <p>Fframwaith Defnydd o'r Gymraeg</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

BLAENORIAETH 1.2 - CYMRAEG 2050 – MILIWN O SIARADWYR								
<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
Fframwaith Cenedlaethol newydd.			ac arferion yn effeithiol yn barod ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd.	uwchradd. Bydd gan y Gymraeg dudalen debyg i ADY Cymru ar y G6, efo cerrig milltir a chyfle i rannu arferion llwyddiannus.				

BLAENORIAETH 1.3 - CEFNOGI PRIFYSGOL BANGOR A CHAER I DDATBLYGU DARPARIAETH AGA O SAFON UCHEL								
<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
Paratyn drylwyr i gwrdd â gofynion Ymweliad Achredu EWC. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu modiwlau a'r Rhaglen Fentora. Sicrhau bod staff GwE wedi eu hyfforddi i sicrhau ansawdd yr ysgolion partner. Sicrhau bod GwE yn cyfrannu at ddarparu a sicrhau ansawdd y rhaglen.	Mae GwE wedi cefnogi Achrediad llwyddiannus rhaglenni BA/TAR, ac wedi gweithio efo CaBan ac ysgolion y rhanbarth i gyd-lunio modelau. Bydd Arweinydd AGA GwE yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd y grŵp GEY, yn rhoi diweddariad i'r YCG a'r UDA ar strwythur rhaglenni CaBan, a disgwyliadau yr Ysgolion Arweiniol a Rhwydwaith. Arweinydd AGA GwE i fynd i hyfforddiant i fentoriaid rhwydwaith, a chyfrannu at yr hyfforddiant hwnnw, a chefnogi		Mae EWC yn cydnabod y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amodau achredu (Tachwedd 2018). Y modiwlau i gyd yn eu lle ac wedi eu rhannu ag ysgolion partner. Ysgolion partner CaBan i gynnwys AGA fel blaenoriaeth ysgol yn G6. GwE/CaBan i sicrhau ansawdd yr holl ysgolion partner. Mae ysgolion partner CaBan yn gweithio â sefydliadau Addysg Uwch a GwE i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel a'r	Llwyddo i achredu rhaglenni yn llwyddiannus efo EWC (Ebrill 2019). Datblygwyd modiwlau ac maent bellach yn barod. Ysgolion arweiniol wedi'u hadnabod ac wedi cael hyfforddiant ar gyflwyno'r modiwl, 'dyddiau yn yr ysgol' a strwythur y rhaglen. Ysgolion rhwydwaith wedi'u hadnabod a chynllun gweithredu i hyfforddi mentoriaid wedi'i gyflwyno.		Arweinydd AGA GwE	Mawrth 2019 Gorff 2019 Mai 2019 Medi 2019 ymlaen	AGA

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

BLAENORIAETH 1.3 - CEFNOGI PRIFYSGOL BANGOR A CHAER I DDATBLYGU DARPARIAETH AGA O SAFON UCHEL

<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
	prosesau sicrhau ansawdd parhaus CaBan.		hyfforddiant diweddaraf i Athrawon Cysylltiol newydd.					

AMCAN STRATEGOL 2: ARWEINWYR YSBRYDOLEDIG YN GWEITHIO'N GYDA'I GILYDD I GODI SAFONAU

Tud. 90

BLAENORIAETH 2.1 - DARPARU RHAGLENNI DATBLYGU AR DRAWS Y GWEITHLU I SICRHOU ARWEINYDDIAETH O SAFON UCHEL

<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
Parhau i ddatblygu a darparu'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol (RhDAC) er mwyn sefydlu RhDAC cenedlaethol ar gyfer ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Parhau i ddatblygu a chyflwyno'r Rhaglen Datblygu Darpar	Aeth y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol yn ei blaen, fel y cynlluniwyd. Cynhelir y diwrnod Cyflwyno yng Nghanolfan Busnes Conwy ar 02/10/19 i'r garfan nesaf. Dau gynrychiolydd o GwE wedi cyfrannu at gyd-lunio Rhaglen Genedlaethol, i ddechrau yn Nhymor yr Hydref (cyflwynir yn rhanbarthol). Bydd dwy garfan (1 cyfrwng Cymraeg ac 1 cyfrwng Saesneg).		Ystod ehangach o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar gael i ystod o arweinwyr er mwyn datblygu arweinwyr presennol, ac arweinwyr y dyfodol. Nifer well o ymgeiswyr o safon uchel yn ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion a lleoliadau eraill: <ul style="list-style-type: none"> 60 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu Arweinwyr Canol (30 yn y 	Mae GwE yn darparu rhaglenni datblygu cyson, teg ac o ansawdd uchel ar bob cam o'r llwybr datblygu dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth, o arweinyddiaeth ganol i Benaethiaid profiadol. Mae'r rhaglenni yn sicrhau datblygu arweinyddiaeth broffesiynol ar bob cam yng ngyrfa arweinydd er mwyn sicrhau arfer tra effeithiol parhaus, a hynny yng nghyd-destun y safonau arweinyddiaeth ffurfiol. Mae sefydlu'r Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o GwE a'r		Arweinydd Rhaglenni Arweinyddiaeth	Ebrill 2019 ymlaen Dylunio Mehefin 2019	Penaethiaid Newydd a Dros Dro

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>Benaethiaid (RhDDB) ranbarthol er mwyn:</p> <p>1) sicrhau bod gan arweinwyr y dyfodol ar draws y rhanbarth gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel;</p> <p>2) sefydlu Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid / CPCP genedlaethol ar gyfer ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol</p> <p>Gwerthuso ac adolygu'r Rhaglen Datblygu CPCP bresennol. Y prif ganfyddiadau o hyn i ddylanwadu ar ddatblygu Rhaglen Datblygu CPCP genedlaethol newydd ar gyfer ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol.</p> <p>Parhau i ddarparu'r dysgu proffesiynol a gyflwynir drwy'r Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid / Penaethiaid Newydd sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol a'i</p>	<p>Aeth y Rhaglen i Ddarpar Benaethiaid, carfan 2018-19 yn ei blaen, fel y cynlluniwyd. Cynhelir y diwrnod Cyflwyno yng Nghanolfan Busnes Conwy ar 03/10/19.</p> <p>Cyflwynwyd sesiynau gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr CPCP, a'u Penaethiaid, ar draws y rhanbarth. Gwahoddir ceisiadau ar gyfer carfan 2019-20 erbyn 16/09/19.</p> <p>Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro - cyflwynwyd y Rhaglen Genedlaethol, fel y cynlluniwyd. Mae cyfarfodydd rhanbarthol Arweinwyr ALL wedi ceisio sicrhau llai o amrywiad rhwng siroedd. Mae'r sefyllfa</p>		<p>garfan Cymraeg / 30 yn y garfan Saesneg).</p> <ul style="list-style-type: none"> 60 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu carfan 5 y Rhaglen (30 yn y garfan Cymraeg / 30 yn y garfan Saesneg). 50 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu CPCP. 80% o ymgeiswyr yn llwyddo i ennill statws CPPC. Bydd nifer yr unigolion sy'n mynychu'r rhaglen yn dibynnu ar benodiadau yn yr Awdurdodau Lleol. 25 o unigolion yn ymgeisio'n llwyddiannus a mynychu'r Rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer Datblygu Penaethiaid Profiadol. 	<p>chwe awdurdod lleol, yn sicrhau yr adnabyddir anghenion a bod rhaglenni yn bodloni anghenion y proffesiwn.</p> <p>Cadarnheir manylion nifer yr aelodau llwyddiannus yn dilyn y Diwrnod Cyflwyno ym mis Hydref. .</p> <p>Hysbysebwyd rhaglen CPCP 2019-20 yn dda ar draws y rhanbarth. Tri sesiwn codi ymwybyddiaeth i ddarpar ymgeiswyr i'w cynnal ar draws y Rhanbarth (cyfrwng Cymraeg a Saesneg).</p> <p>Trafodwyd y meini prawf ar gyfer ymgeiswyr CPCP yn drylwyr efo aelodau'r grŵp arweinyddiaeth rhanbarthol.</p> <p>Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol Cenedlaethol - ardystiwyd y Rhaglen Genedlaethol gan NAEL, a bydd yn dechrau yn ystod Tymor yr Hydref.</p>			<p>Dyddiad dechrau – Medi 2019</p> <p>Mehefin 2019</p> <p>Tach. 2019</p> <p>Mai 2019</p> <p>Parhaus</p>	
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>hachredu gan Yr Athrofa a Phrifysgol Bangor.</p> <p>Darparu'r dysgu proffesiynol a gyflwynir drwy'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol a'i hachredu gan Yr Athrofa a Phrifysgol Bangor.</p>	<p>bresennol yn awgrymu y bydd hyn yn gwella yn y flwyddyn Medi 2019-20.</p> <p>Penaethiaid Profiadol - bu dau gynrychiolydd o GwE yn cynrychioli'r rhanbarth yn ystod y broses o gyd-lunio Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol i Benaethiaid profiadol. Rhoddwyd diweddariad i grwpiau Penaethiaid gan yr Arweinwyr Craidd yn ystod cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid rhanbarthol.</p>						<p>Medi 2019 ymlaen</p>	
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--	--	--	-------------------------	--

Tud. 92

BLAENORIAETH 2.2 - CEFNOGI YSGOLION UWCHRADD I WELLA PERFFORMIAD ARWEINYDDIAETH GANOL

<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
<p>Targedu unigolion yn bwrpasol i fynychu'r rhaglenni.</p> <p>Cynlluniau Cymorth pob ysgol yn adnabod pa agweddau o arweinyddiaeth ganol sydd angen sylw penodol ac yn arwain arweinwyr canol i leihau amrywiaethau oddi fewn eu hadrannau, yn</p>	<p>Trafodaethau cychwynnol efo ysgolion am lefel y cymorth.</p> <p>Cwblheir y cynlluniau cymorth yn fuan yn yr Hydref.</p> <p>Adnabwyd ysgolion i gymryd rhan yn y rhaglen Ymgysylltu â Chymheiriaid. Rhannwyd gohebiaeth ysgrifenedig efo ysgolion. Hyfforddiant i'w gynnal yn yr Hydref.</p>		<p>unigolion wedi eu targedu'n llwyddiannus ac yn cyfranogi'n llawn yn y rhaglenni.</p> <p>Sgiliau arweinyddiaeth unigolion wedi grymuso.</p> <p>Ansawdd gweithredu yn arwain at welliannau yn y dysgu a'r addysgu.</p>	<p>Rhy fuan i fesur effaith.</p> <p>Targedwyd rhai arweinwyr eisoes i fynychu rhaglenni datblygu penodol.</p>		<p>Arweinydd Arweinyddiaeth Ganol</p>	<p>Medi 2019 ymlaen</p> <p>Ebrill 2019 ymlaen</p>	<p>Arweinwyr y Dyfodol</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

benodol felly yn ansawdd y dysgu a'r addysgu.							
-----------------------------------------------	--	--	--	--	--	--	--

BLAENORIAETH 2.3 - DATBLYGU MODEL A PHROSES AU YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID GYDA YSGOLION I SICRHAU HUNAN-ARFARNU CADARN A CHYNLLUNIAU GWELLA AR BOB LEFEL

Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Datblygu a gweithredu modelau ymgysylltu â chymheiriaid ar draws y rhanbarth.</p> <p>Gweithredu gyda rhanddeiliaid i ddiwygio trefnadau a gweithdrefnau gwella ac atebolrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn :</p> <ul style="list-style-type: none"> cwrdd â gofynion a disgwyliadau cenedlaethol. cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. gadarn, teg, cydlynol a thryloyw. annog arweinwyr i ysgwyddo mwy o atebolrwydd am welliannau yn eu hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion cymheiriaid ymgysylltu 	<p>Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid, sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, a hefyd dysgu o arferion da yn genedlaethol a thu hwnt.</p> <p>Drwy ddatblygu model ymgysylltu â chymheiriaid ar amryw o lefelau a haenau, a'r model hwnnw wedi'i lunio a'i pherchnogi gan yr ysgolion eu hunain, bydd modd i sefydliadau fabwysiadu fynd i'r afael â'r daith ddiwygio genedlaethol mewn ffordd integredig. Bydd yr awdurdodau lleol a GwE yn cefnogi'r dull gweithredu integredig yn effeithiol.</p>		<p>Prosiect braenaru rhanbarthol yn weithredol a lleiafswm o 100 o ysgolion yn cyfrannu at y gwaith.</p> <p>Gweithdrefnau gwella ac atebolrwydd lleol yn cwrdd â'r gofynion a'r disgwyliadau cenedlaethol.</p> <p>Gwell cysondeb yng ngrymster a miniogrwydd gweithdrefnau arfarnu ar draws ac oddi fewn i ysgolion.</p> <p>Arweinwyr ar bob lefel yn perchnogi'r atebolrwydd am welliannau oddi fewn i'w hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion cymheiriaid.</p> <p>Gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau pob ysgol yn:</p>	<p>Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb gan 290 o ysgolion [yn gweithio fel 41 o glystyrau].</p> <p>Bydd 60 ysgolion [sy 'n gweithio fel 10 clwstwr] yn treialu rhaglen SPP ranbarthol tra bydd 175 o ysgolion [yn gweithio fel 28 o glystyrau] yn datblygu model lleol.</p> <p>Bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cyfnod pilot.</p>		<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol / Arweinydd Rhanbarthol Cynradd / Arweinydd Rhanbarthol Uwchradd</p>	<p>Mai 2019 ymlaen</p>	<p>Cyllid ar gyfer cydweithio</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>Cefnogi arweinwyr i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfrannu'n effeithiol a phwrpasol i'r trefniadau gwerthuso a gwella.</p> <p>Sicrhau bod gweithdrefnau arfarnu a chynllunio gwelliannau pob ysgol yn :</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnwys ymgysylltu â chymheiriaid • blaenoriaethu gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar gyfer yr ystod gallu o ddysgwyr <p>Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn gallu gweithredu'n hyderus a grymus wrth gynllunio ac arwain gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu a bod defnydd effeithiol yn cael ei wneud o gymheiriaid i gefnogi'r daith gwella</p>	<p>Bydd y model yn sail i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus, a bydd yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cynnwys gweithgareddau ymgysylltu â chymheiriaid; • canolbwyntio'n benodol ar ansawdd profiadau dysgu ac addysgu i'r ystod gallu o ddysgwyr. <p>Rhaglen fonitro dynn yn weithredol i arfarnu effaith y prosiect braenaru.</p>				
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--	--

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

AMCAN STRATEGOL 3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SY'N YMRWYMEDIG I RAGORIAETH, TEGWCH A LLES

BLAENORIAETH 3.1 - CEFNOGI STRATEGAETH DYSGWYR BREGUS								
Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Diwygio'r broses o benderfynu a bod yn atebol am werthuso ac archwilio'r grant GDD rhwng ysgolion, yr Awdurdod Lleol a Chonsortia.</p> <p>Cryfheddi rôl yr YCG mewn cynorthwyo ysgolion i werthuso cynnydd eu dysgwyr bregus a gyda defnyddio'r GDD.</p> <p>Datblygu dull person-ganolog o wrando ar leisiau pob grŵp o ddysgwyr.</p>	<p>Mae llinellau atebolrwydd clir yn y consortia. Mae mwy o bwyslais ar fonitro ac arfarnu perfformiad cyffredinol dysgwyr PYD ar draws y meysydd portffolio allweddol, yn y cynradd a'r uwchradd.</p> <p>Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach yn herio ysgolion ar eu defnydd o arian grant, gyda set pendant o feini prawf i bwysu a mesur sut maent yn defnyddio'r arian hwn. Gwelwyd hyn yn lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran gweld beth yw effaith defnyddio'r arian grant ar ddeilliannau disgyblion.</p> <p>Gwaith ar y gweill o ran prosiect llais y dysgwr, efo sesiynau yn cael eu hwyluso mewn 3 ALL.</p>		<p>Mae perfformiad dysgwyr PYD ar draws y rhanbarth wedi cynyddu'n unol / neu'n fwy na'r gwelliant cyfartalog cenedlaethol yn y prif ddangosyddion.</p> <p>Y Grŵp Strategol Rhanbarthol i gwrdd bob tymor gyda chylch gorchwyl clir.</p> <p>Mae'r holl gynlluniau GDD yn cael eu harchwilio'n flynyddol drwy'r rhanbarth, gyda'r effaith a'r arferion llwyddiannus yn cael eu rhannu drwy G6.</p> <p>Data crynodol a ffurfiannol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu gwelliannau.</p> <p>70% o'r cydweithio ysgol i ysgol / clwstwr rhanbarthol yn rhan o gyflwyno arferion seiliedig ar dystiolaeth.</p>	<p>Disgwyl am ganlyniadau 2019.</p> <p>Bydd GwE yn monitro ac arfarnu effeithiolrwydd ac effaith y GDD ar ysgolion ar draws y consortia yn yr Hydref.</p> <p>Defnyddir data, gosod targedau a thracio yn effeithiol a chyson i herio a chefnogi ysgolion drwy gyfrwng yr YCG, ac fe'u defnyddir yn fwy effeithiol yn ein prosesau arfarnu i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr ysgolion iawn.</p>		Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol	<p>Mai 2019</p> <p>Medi 2019</p> <p>Rhagfyr 2019</p> <p>Ebrill – Mehefin 2019</p>	GDD

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

BLAENORIAETH 3.2 - DATBLYGU YMHELLACH Y STRATEGAETH PMG								
Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Gweithredu'r strategaeth GDD / PMG gan fesur ei heffaith a'r canllawiau gwerthuso ar draws y rhanbarth.</p> <p>Gweithredu ffynhonnell ddata gyson i sicrhau bod gwybodaeth yr Awdurdod Lleol am blant PMG yn cael ei rhanu â'r consortia.</p> <p>Asesu a thracio cynnydd plant PMG yn rheolaidd ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Gweithredir strategaeth a chynllun busnes GwE yn llawn ar draws y rhanbarth. Cynhwysir elfen PYD y GDD PMG yn y Cynlluniau Busnes rhanbarthol, rhai'r ALL a'r portffolio allweddol.</p> <p>Cyhoeddwyd fframwaith diwygiedig i'r GDD PMG, a gyd-luniwyd gan gynrychiolwyr ADEW a chydlynwyr GDD PMG rhanbarthol, i Gyfarwyddwyr Addysg ym mis Mawrth, i'w weithredu o fis Ebrill. Yn y fframwaith diwygiedig, mae set o ddibenion craidd ar gyfer rôl y cydlynwyr arweiniol GDD PMG, a bydd modd cael cysondeb yn genedlaethol i sicrhau y deilliannau addysgol gorau i blant mewn gofal ar draws Cymru.</p> <p>Mae systemau monitro ar waith, mewn perthynas â phlant sydd mewn gofal - drwy'r YCG a'r CG PMG a'r ALL. Rydym yn gweithio'n agos gyda holl Arweinwyr PMG y</p>		<p>Mae perfformiad plant PMG ar draws y rhanbarth wedi cynyddu'n unol â/neu'n fwy na'r gwelliant cyfartalog cenedlaethol yn y prif ddangosyddion.</p> <p>Mae cynllun Cefnogi GDD/PMG clir a thrylwyr yn ei le ac wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae model fframwaith wedi'i weithredu ar draws y rhanbarth drwy'r canllawiau grant ac mae canllawiau/system werthuso drylwyr.</p> <p>Mae proffil un dudalen glir ar gyfer Ysgolion/Clwstwr sy'n dangos tystiolaeth o effaith y grant GDD ar PMG.</p>	<p>Disgwyl am ganlyniadau 2019.</p> <p>Rydym wedi mabwysiadu a gweithredu telerau ac amodau newydd GDD PMG Llywodraeth Cymru ar gyfer arian grant yn ein telerau ac amodau GDD PMG rhanbarthol. Rydym hefyd yn sicrhau bod amcanion a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol yn cael eu bodloni.</p> <p>Ein nod yw cynyddu'r dull gweithredu clwstwr, a sicrhau bod ysgolion/clystyrau targed yn cael at yr arian rhanbarthol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r chwe ALL i sicrhau cyfathrebu a chydweithio clir o safbwynt cefnogaeth ac ymyrraeth ychwanegol i ddangos tystiolaeth o effaith y GDD PMG.</p>		Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol	<p>Ebrill 2019 – Mawrth 2020</p> <p>Ebrill 2019</p> <p>Ebrill 2019 – Mawrth 2020</p> <p>Ebrill 2019</p>	PMG

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

	<p>Consortia i ddatblygu model arfaethedig i dracio, a monitro dangosyddion allweddol/data cyfredol pob PMG.</p> <p>Mae gwaith hefyd ar y gweill efo ALL a GwE o ran rhannu data am ddangosyddion allweddol, fel presenoldeb/gwaharddiadau/ADY, o safbwynt cyflawniadau PMG.</p>						
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--	--	--	--

LAENORIAETH 3.3 - GWEITHIO GYDA'R AWDURDODAU LLEOL AC YSGOLION I WELD SUT ORAU I BARATOI AR GYFER TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL								
Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Cynnig Dysgu Proffesiynol yn ei le wedi'i ddarparu gan yr Awdurdod Lleol a GwE.</p> <p>Arferion effeithiol yn cael eu rhannu ar draws y rhanbarth i leihau dyblygu a llwythi gwaith.</p> <p>Rhwydweithiau trawsnewid ADY a chlwtwr wedi eu sefydlu ac yn cael eu cefnogi gan y tîm YCG.</p> <p>Mae gan bob clwtwr gynllun gweithredu'n</p>	<p>Cynnig Dysgu Proffesiynol wedi ei gwblhau, ei dderbyn ac yn ei le.</p> <p>Arweinwyr clwtwr ac YCG ADY yn rhannu arferion effeithiol ar draws y rhanbarth drwy G6.</p> <p>Sefydlwyd gwaith clwtwr ar drawsnewid ADY yn y rhanbarth, gan ddarparu dull cyson o gefnogi parodrwydd ysgolion at weithredu'r diwygio ADY. O ganlyniad, mae gan ysgolion</p>		<p>Mae'r cynnig dysgu proffesiynol yn cynorthwyo i ddeall a chyflwyno Trawsnewid ADY.</p> <p>Mae astudiaethau achos o arferion llwyddiannus ar gael ar G6 ac yn seiliedig ar waith y clystyrau ac Awdurdodau Lleol.</p> <p>Mae rhwydweithiau proffesiynol yn eu lle ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, canolfannau arbenigol a model clwtwr.</p> <p>Mae'r ysgolion i gyd yn rhan o'r model clwtwr lleol ac yn derbyn</p>	<p>Bydd gan ysgolion fynediad i hyfforddiant yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Mae uwch arweinwyr a chlystyrau wedi adnabod eu hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain ar gyfer cefnogi'r gweithredu, sydd wedi llywio cynnig dysgu proffesiynol 2019-20 ar gyfer trawsnewid ADY.</p> <p>Rhai astudiaethau ac adnoddau eisoes wedi eu rhannu ar G6.</p> <p>Pob clwtwr a'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn ymgysylltu. Bu</p>		<p>Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol rhanbarth y Gogledd</p>	<p>Haf 2019</p> <p>Hydref 2019</p> <p>Haf 2019</p> <p>Hydref 2019</p>	<p>ADY Grantiau trawsnewid</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>adnabod camau nesaf y daith ddiwygio.</p> <p>Mae pob awdurdod lleol, GwE ac asiantaethau cyswllt yn cymeradwyo'r cynllun trawsnewid rhanbarthol a'r blaenoriaethau cyllid.</p>	<p>ymwybyddiaeth o'r diwygio ac maent wedi gweithio gyda'u clwstwr i adnabod blaenoriaethau ar y cyd a chyflwyno cynllun gweithredu clwstwr. Mae'r model yn sicrhau y caiff pob ysgol yn y rhanbarth gyngor a chefnogaeth manwl gywir, amserol a chyson wrth i ni symud at ddiwedd y daith drawsnewid ac at weithredu.</p>		<p>cymorth ariannol drwy'r grant trawsnewid.</p> <p>Mae cynllun trawsnewid yn ei le ac wedi'i gymeradwyo gan aelodau etholedig.</p>	<p>gwaith arloesi llwyddiannus ar lefel clwstwr, gan gynnwys diffinio darpariaeth gyffredin, diffinio addysgu o'r radd flaenaf a gweithredu strategaethau ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gofalwyr.</p> <p>Gwybodaeth wedi ei rannu gydag aelodau etholedig.</p>			<p align="center">Mehefin 2019</p>	
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	----------------------------------------	--

Tud. 98

AMCAN STRATEGOL 4: TREFNIADAU ASESU, GWERTHUSO AC ATEBOLRWYDD TRYLWYR I GEFNOGI SYSTEM O HUNAN-WELLA

BLAENORIAETH 4.1 - DATBLYGU SYSTEMAU TRACIO AC ASESU								
<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
<p>Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd strategaethau a systemau tracio trylwyr yn eu lle i fesur effaith amrywiadau rhwng ysgolion.</p> <p>Gweithredu prosiect braenaru gyda 27 o ysgolion uwchradd i dreialu meddalwedd sy'n asesu amrywiadau rhwng</p>	<p>Mae 27 o ysgolion uwchradd yn treialu system rheoli data sy'n canolbwyntio ar amlygu amrywiad mewn ysgol. Gan fod amrywiad mewn ysgol bedair gwaith yn fwy arwyddocaol nag amrywiad rhwng ysgolion, mae mynd i'r afael â hyn yn effeithiol yn greiddiol i wella perfformiad yn y rhanbarth. Mae rhaglen beilot lai arall yn cael ei chynnal i adolygu a datblygu</p>		<p>Gwelliant ym mherfformiad rhanbarthol 2020 o dan ddangosydd Cap 9 yn CA4 sy'n fwy o welliant na'r cyfartalog cenedlaethol.</p> <p>Mae gan arweinydd ar bob lefel fynediad at ystod fwy cyfoethog o ddata er mwyn tracio cynnydd a thargedau ymyriadau'n llwyddiannus.</p>	<p>Gwelir effaith y crynodeb data a'r adnoddau olrhain mewn llawer o ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Athrawon ac arweinydd ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol, o'r gwaelodlin hyd at ddiwedd addysg gynradd. Ysgolion yn canolbwyntio ar gynnydd grwpiau o ddysgwyr. Gwell cysondeb mewn asesiad athro a gosod targedau, ar 		<p>Arweinydd Tracio ac Aseu Uwchradd</p>	<p>Medi 2020</p>	<p>Cyllid ar gyfer cydweithio</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>ysgolion a rhannu arferion llwyddiannus o ganfyddiadau prosiect ymchwil weithredu.</p> <p>Cynyddu defnydd ysgolion o'r system dracio cynradd a'i ddatblygu ymhellach i fod yn system ar-lein:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tendo ar gyfer ei ddatblygu • Hyfforddiant i ysgolion ac YCG ar sut i ddefnyddio'r system yn effeithiol. 	<p>ymwybyddiaeth ysgolion, a thracio dadansoddiad ar lefel cwestiwn.</p> <p>Mewn ysgolion cynradd, mae ffocws clir ar olrhain cynnydd disgyblion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • System Orlhain Ysgol Gyfan - Cafodd hon ei chreu o'r fersiwn flaenorol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen . • Taenlen Crynhoi Data: Darparwyd crynodeb o ddata disgyblion BI2 a BI6 • Cymedroli CA2 a CA3: a chyfarfodydd gwyddoniaeth. Drwy'r rhanbarth, roedd cytundeb ar lefelau ffit orau y rhan fwyaf o ysgolion. <p>Cynigiwyd hyfforddiant i bob ysgol ar draws y rhanbarth yn ystod mis Mehefin 2019.</p> <p>Rhodddwyd hyfforddiant i bron pob YCG cynradd mewn cyfarfod tîm.</p>		<p>Mae gan bob ysgol fynediad at hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system dracio yn effeithiol i ddadansoddi data ar gynnydd disgyblion.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r system yn dda i ddatblygu mesurau cynnydd cywir ar gyfer dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr. YCG i gyd yn ffyddiog y medrant gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio'r system dracio yn effeithiol.</p>	<p>draws ysgolion, sy'n arwain at hunan arfarnu a chynllunio gwelliant mwy cadarn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio amrywiol ffyrdd i ddadansoddi data disgyblion a chyflwyno'r canfyddiadau, er enghraifft, mewn graffiau a siartiau. <p>Mae llawer o ysgolion sydd wedi ei ddefnyddio fel eu prif system olrhain cynnydd wedi'u nodi gan Estyn fel ysgolion sy'n olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol, ac fe'u defnyddir fel astudiaethau achos arfer dda.</p>		<p>Arweinydd Tracio ac Asesu Cynradd</p>	<p>Gorff. 2019</p> <p>Ionawr 2020</p>	<p>Cyllid ar gyfer cydweithio</p>
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	------------------------------------------	---------------------------------------	-----------------------------------

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

BLAENORIAETH 4.2 - DATBLYGU SYSTEMAU ATEBOLRWYDD A RHEOLI								
Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Datblygu a phrofi'r rhaglen iCAM fel rhan o system allbwn data a rhyngwyneb defnyddwyr G6 GwE (ar sail cofnodi data amrywiadol ar blant unigol wrth iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd).</p> <p>Datblygu canllawiau ar eu defnyddio i ysgolion, safledd peilot a gwerthuso trylwyr, datblygu agweddau ychwanegol ar y rhaglen iCAM. Cynnal cyswllt â G6 i asesu goblygiadau integreiddio llwyfannau.</p> <p>Cefnogi Ysgolion a staff GwE ymhellach i ddatblygu defnydd effeithiol o G6 fel offeryn hunan wella.</p>	<p>Mae GwE yn gweithio'n agos efo arbenigwyr o Brifysgol Warwick a Phrifysgol Bangor i ddatblygu model cyrhaeddiad plentyn unigol (iCAM), er mwyn rhagfynegi cyrhaeddiad a llywio blaenoriaethau a yrrir gan y plentyn, i ysgolion uwchradd yng Nghymru. Bydd y model yn seiliedig ar ddata hanesyddol o hyd a lled Cymru. Os yw'n llwyddiannus, byddai'n cael gwared ar yr angen am gymariaethau mympwyol rhwng ysgolion, gan fodelu disgwyliadau am gyrhaeddiad disgyblion unigol yng nghyfnod allweddol 4 yn lle hynny.</p> <p>Mae staff ysgolion a GwE yn defnyddio'r system G6 yn well. Mae'r system yn cynnig strwythur ar gyfer cael darlun o brosesau gwella a blaenoriaethau ysgolion, ac mae'n coladu tystiolaeth feintiol o daith wella ysgolion.</p> <p>Trwy gyfathrebu rheolaidd a chryno rhwng ysgolion a GwE,</p>		<p>Nodweddion iCAM wedi eu sefydlu a'u cefnogi gan dystiolaeth ymchwil academiaidd briodol.</p> <p>Efelychiad Cam 2 yn cael ei redeg i fodelu data allbwn.</p> <p>Y system wedi'i haddasu i asesu'r addasiadau sydd eu hangen ar gyfer mesurau perfformiad interim ac arfaethedig.</p> <p>Holl staff GwE yn gwneud defnydd effeithiol o G6 gan rannu arferion llwyddiannus gyda chymheiriaid. Trefniadau grymus mewn lle ar gyfer sicrhau ansawdd.</p> <p>Bron pob ysgol wedi ymgysylltu'n llawn gyda G6 ac yn gwneud defnydd effeithiol i hunan wella ac i fonitro cynnydd</p>	<p>Rhy fuan i fesur effaith.</p> <p>Datblygwyd rhaglen o gyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Cyfoedion yn Nhymor y Gwanwyn 2019. Llwyddwyd i wella dealltwriaeth o gysondeb arferion, a hefyd rhoi cyfle i ddefnyddwyr GwE rannu'r arferion gorau.</p> <p>Mae ysgolion yn defnyddio'r cerrig milltir yn y modiwlau Cwricwlwm i Cymru ac ADY yn effeithiol. Mae</p>		<p>Arweinydd Tracio ac Asesu Uwchradd</p> <p>Arweinydd G6</p>	<p>Medi 2020</p> <p>Mawrth 2020</p>	<p>Cyllid ar gyfer cydweithio / Ymchwil a Gwerthuso</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

	mae'r system yn canolbwyntio ar drosglwyddo data byw i gefnogi cynnydd disgyblion. Gyda mwyfwy o ddeialog broffesiynol rhwng yr YCG a'r ysgol, gall YCG ymateb yn gynt i helpu ysgolion gyda meysydd sydd angen cefnogaeth.		yn erbyn cerrig milltir y daith ddiwygio.	hyn yn caniatáu i ysgolion fyfyrion ar eu sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r daith ddiwygio, a darperir camau nesaf clir i'w hystyried. Mae'r system hefyd yn rhoi darlun o'r arferion gorau, ac yn eu rhannu rhwng ysgolion.			
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	-------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--

BLAENORIAETH 4.3 - DATBLYGU YMHELLACH TREFNIADAU ATEBOLRWYDD A PHROSESAU AR GYFER HUNAN ARFARNU CADARN A CHYNLLUNIAU GWELLA

<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
<p>Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i ddisodli rhannau o'r system atebolrwydd bresennol.</p> <p>Hyrwyddo a meithrin y diwylliant a'r ymddygiad sydd angen eu gweld i gefnogi gweithrediad y cwricwlwm newydd ac agenda ehangach y 'daith ddiwygio'.</p> <p>Cyfrannu at ddatblygu 'pecyn' hunan-werthuso a gwella cenedlaethol dan arweiniad Estyn a'r OECD.</p>	<p>Fel rhan o'r drefn genedlaethol i ddatblygu trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd diwygiedig, bu Estyn a'r OECD yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu 'pecyn cymorth'. Y nod oedd cynyddu trylwyredd a chysondeb mewn prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant, a hynny wrth hybu a meithrin y diwylliant a'r ymddygiad sydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd ac agenda ehangach y daith ddiwygio.</p> <p>Mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolaeth o GwE, wedi bod yn cyfrannu at y</p>		<p>Mae ymddygiad a diwylliant y rhanddeiliaid allweddol yn unol â disgwyliadau'r fframwaith atebolrwydd cenedlaethol newydd.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ar darged gyda datblygiadau'r cwricwlwm a pharatoi am y daith ddiwygio ehangach.</p> <p>Mae'r broses o gynllunio ar gyfer hunan-werthuso a gwella'n fwy trylwyr a chyson.</p>	Rhy fuan i fesur effaith.		Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Ebrill 2019 ymlaen	Craidd

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

	trafodaethau ac at raglenni gwaith y grŵp rhanddeiliaid a'r gweithgor.						
--	------------------------------------------------------------------------	--	--	--	--	--	--

AMCAN STRATEGOL 5: CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL

BLAENORIAETH 5.1 - PARATOI CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL								
<i>Gweithredu</i>	<i>Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020</i>	<i>Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)</i>	<i>RAG Ch1</i>	<i>Yn gyfrifol</i>	<i>Dyddiad targed</i>	<i>Proffil gwariant Ch1</i>
<p>Tud 102</p> <p>Parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm drafft drwy gynnwys ysgolion a staff GwE:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwella Ansawdd - Arloesi - Dysgu Proffesiynol <p>Cefnogi cyfnod ymgynghori Llywodraeth Cymru a hwyluso pob ysgol ac ymarferydd i fynychu sesiynau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o Gwricwlwm 2022 a chynnig adborth gwybodus.</p> <p>Parhau gyda'r dull integredig o ddiwygio addysg a chefnogi</p>	<p>Mae gwaith diwygio Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddo ar gyflymdra yn y rhanbarth, gan ddefnyddio strwythur y rhwydweithiau clwstwr.</p> <p>Mae'r 53 rhwydwaith clwstwr yn parhau i gyfarfod, ac mae diwygio Cwricwlwm i Gymru yn eitem reolaidd ar gyfer cael diweddariad. Mae YCG yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd, ac maent yn allweddol ar gyfer cyfathrebu dwyffordd i rannu ac adrodd yn ôl ar negeseuon cyson.</p> <p>Mae GwE wedi cefnogi digwyddiadau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y</p>		<p>Ymgysylltiad llawn gan ymarferwyr ar draws rhanbarth GwE wrth gyfrannu at y cam nesaf o ddatblygu'r cwricwlwm.</p> <p>Pob ysgol gyda mynediad at wybodaeth ar ddatblygiadau cwricwlwm.</p> <p>Ysgolion yn cynnig adborth i LIC er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd fel rhan o'u paratodau.</p> <p>Strategaethau clir wedi eu datblygu ar draws y rhanbarth,</p>	<p>Ymgysylltu yn gryf ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae'r adborth yn glir- ar hyn o bryd, teimla ysgolion eu bod ar drac o ran ymwybyddiaeth eu staff o'r wybodaeth sydd ar gael am ddatblygiadau'r cwricwlwm, yn enwedig y 4 diben a'r 12 egwyddor addysgegol.</p> <p>Mae gan bob ysgol fynediad at wybodaeth am ddatblygiadau'r cwricwlwm.</p> <p>Cytunwyd mewn egwyddor ar gynigion y 53 clwstwr ar gyfer y camau nesaf i ddatblygu ymwybyddiaeth am y cwricwlwm, ac mae meini prawf llwyddiant yn cynnwys: Amcanion cytûn tryloyw i</p>		<p>Arweinydd CIG</p> <p>Y tîm cyfan i gynnwys</p>	<p>Parhaus o Ebrill 2019 ymlaen</p> <p>Ebrill – Gorffennaf 2019</p>	<p>Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd</p> <p>Digwyddiadau wedi eu hariannu gan LIC</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>datblygiad y cwricwlwm ar draws pob agwedd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Modelau cwricwlwm i gynnwys sgiliau cynllunio a dylunio cwricwlwm - addysgu a dysgu, e.e. 12 egwyddor addysgeg, asesu - ADY, e.e. ysgolion cryf a chynhwysol / gwaith gwahaniaethol Cymraeg mewn Addysg - Sut y mae ysgolion yn gwerthuso eu cynnydd - Goblygiadau dysgu proffesiynol - Rheoli newid <p>Parhau i gefnogi a datblygu'r gwaith clwstr ar y continwmm 3-16 oed drwy barhau gyda'r gwaith CIG yn dilyn proses fidio. YCG i barhau i drafod cynnydd y gwaith CIG fel rhan o gyfarfodydd clwstr.</p>	<p>Cwricwlwm i Gymru. Rhaglen Ymgysylltu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfres o weithdai i geisio rhoi cyfle i gymaint o ymarferwyr â phosibl i glywed yn uniongyrchol gan Arloeswyr am y Cwricwlwm newydd. • Nod y sesiynau yw helpu ymarferwyr i ddeall y Cwricwlwm, a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o sut allant adrodd yn ôl yn ystod y tymor hwn. • Wythnos yn dechrau 13 Mai - 6 sesiwn, yn para 2 awr (un ym mhob Awdurdod Lleol) ar gyfer pob Pennaeth. Rhannu negeseuon ar sail adnoddau a ddatblygwyd ar y cyd. • Wythnosau yn dechrau 3 Mehefin/10 Mehefin/17 Mehefin - 27 sesiwn yn cael eu cynnal mewn 3 lleoliad ar draws y rhanbarth, 3 sesiwn y diwrnod yn canolbwyntio ar 2 MDaPh ar y tro. Cynhelir y sesiynau dwy awr hyn yn y prynhawn, yn y bore ac ar ôl ysgol i'r rheiny sydd methu 		<p>yn y clystyrau a'r ysgolion unigol ar gyfer cefnogi datblygiad y cwricwlwm gyda ffocws ar yr holl brofiadau addysgu a dysgu.</p> <p>Dealltwriaeth well o'r cwricwlwm a mwy o enghreifftiau esboniadol a modelau cwricwlwm sy'n cynnwys profiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel.</p> <p>Cynnig dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n cynnig cymorth craidd ar draws y broses ddiwygio ac sy'n ddigon hyblyg i gwrdd ag anghenion ysgolion unigol a chlystyrau.</p> <p>Yr holl glystyrau'n parhau i gyfranogi'n llawn ar bob lefel yn natblygiadau cwricwlwm y consortia, er mwyn i bob ysgol ddatblygu'r cwricwlwm ar draws y continwmm o 3-16.</p> <p>Mwy o ysgolion yn adrodd cynnydd yn erbyn y meini prawf llwyddo, gan gynnwys canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr.</p>	<p>wella deilliannau i ddysgwyr; Nifer cynyddol o staff yn ymwybodol o ddatblygiadau'r cwricwlwm newydd; Nifer cynyddol o staff ysgolion yn cydweithio; Nifer cynyddol o gyfleoedd i gynllunio a pharatoi ar gyfer y continwmm dysgu 3-16 oed; Darparu cyfleoedd i athrawon fyfyrion ac arloesi gyda dulliau addysgegol. Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cefnogi'r gwaith wrth i'r ysgolion weithio drwy'r cynlluniau hyn.</p> <p>Mae cynnig proffesiynol GwE yn gynhwysfawr ac eang, gan ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion. Cynlluniwyd cynnig proffesiynol GwE gyda datblygiad yr unigolion sydd ar lawr y dosbarth mewn golwg, tra bodlonir hefyd agweddau ar ysgol gyfan, cefnogi clystyrau o ysgolion ac ymateb i anghenion ALL.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o'u hysgolion, ar anghenion clystyrau penodol, dyheadau'r AauLL a blaenoriaethau cenedlaethol.</p> <p>Mae egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus wedi'u gwreiddio yn yr holl hyfforddiant, ac mae pedwar</p>		<ul style="list-style-type: none"> - Cyfnod Sylfaen - Addysgu a Dysgu - Arweinwyr pynciau craidd - Cyfrwng Cymraeg - Asesu - Gwerthuso ysgol ac ysgol <p>Y tîm cyfan</p>	<p>Parhaus Ebrill 2019</p> <p>Parhaus</p>	<p>Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd</p> <p>Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd</p>
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Tud. 103

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>Ar draws y 6 MDaPh, cryfhau'r fforymau rhanbarthol a datblygu rhai newydd i weithio a thrafod manylder y meysydd MDaPh ar gyfer modelau cwricwlwm, fel rhan o gynllunio dysgu ym mhob MDaPh.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu - Mathemateg a Rhifedd - Gwyddoniaeth a Technoleg - Dyniaethau - Iechyd a Lles - Y Celfyddydau Mynegiannol <p>Ym mhob MDAPH, ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Arweinyddiaeth a datblygu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol i arweinyddiaeth MDaPh - Cydweithio a Gweithio mewn Partneriaeth - Gweithio â chorff Cymwysterau Cymru i ymgynghori ar gymwysterau'r cwricwlwm newydd 	<p>cael eu rhyddhau yn ystod y diwrnod ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynulleidfa sydd wedi cofrestru ar ddigwyddiadau - Penaethiaid; Uwch arweinydd; Arweinydd Cwricwlwm; Athrawon; Cymorthyddion; Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant; cydweithwyr o'r Awdurdod Lleol. • 2 x sesiwn hanner diwrnod i athrawon ac arweinydd ysgolion bach, h.y. y rheiny sy'n addysgu un cyfnod allweddol yn yr un dosbarth. • Gweithio gyda chydweithwyr yr ALI i gyflwyno'n lleol i Lywodraethwyr ac Aelodau Lleol. 		<p>Cyfres o Fforymau rhanbarthol yn datblygu ac yn aeddfedu ar draws y 6 MDaPh i gefnogi ysgolion a phartneriaid wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd</p> <p>Cyfres o ganllawiau ac enghreifftiau o fodelau MDaPh ar gael i'w trafod yn yr ysgolion, fel rhan o'u paratodau ar gyfer y cwricwlwm newydd.</p> <p>Mwy o gydweithio mewn partneriaeth wedi cael ei ddatblygu ar draws y rhanbarth.</p>		<p>Y tîm cyfan</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd</p>
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--------------------	----------------	---------------------------------------------------------------

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>Parhau i roi cymorth i bob ysgol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gerrig milltir tymhorol ar gyfer G6 - Cyflwyno cyfres o fodolau a chanllawiau a diweddarau ysgolion yn rheolaidd er mwyn 'gwneud synnwyr', gan gynnwys enghreifftiau a modelau cwricwlwm - Hwyluso cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i Ysgolion Arloesi gael rhannu eu gwaith a'u prosiectau drwy amrywiol gyfryngau 	<p>Bu datblygu'r G6 yn help i gefnogi ysgolion wrth iddynt feddwl am baratoi ar gyfer yr agenda drawsnewid barhaus. Rhydd gyfeiriad clir hefyd ar sut y bydd GwE yn gweithio mewn dull clir a threfnus i gefnogi ysgolion i fyfyrion ar eu parodrwydd ar gyfer y cwricwlwm newydd, a'u paratoadau ar gyfer y daith ddiwygio.</p>		<p>Bron pob ysgol yn adrodd eu bod 'ar drac' gyda'r modiwl CIG ar G6.</p> <p>Canllawiau ac adnoddau pwrpasol wedi eu datblygu, i gynnwys eu defnydd ymarferol gan staff ysgol.</p>	<p>Dengys ffigurau rhanbarthol ym mis Mehefin 2019 ar gyfer defnyddio G6 bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 99% o ysgolion Cynradd wedi gosod eu blaenoriaethau ar G6. • 92% o ysgolion Uwchradd wedi gosod eu blaenoriaethau ar G6. <p>Datblygir yr holl adnoddau ar y cyd gan yr Arloeswyr, ac fe'u cyflwynir mewn digwyddiadau ymgysylltu a'u rhannu drwy ein system G6 sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth.</p>		<p>Y tîm cyfan, i gynnwys cyfathrebu</p>	<p>Gwaith parhaus o Ebrill 2019 ymlaen</p>	<p>Cymorth ar gyfer Dylunio a Datblygu'r Cwricwlwm Newydd</p>
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	------------------------------------------	--------------------------------------------	---------------------------------------------------------------

BLAENORIAETH 5.2 - GWELLA ANSAWDD YR ADDYSGU GAN YSTYRIED Y 12 EGWYDDOR ADDYSGEGOL (DYFODOL LLWYDDIANNUS)

Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Gweithredu a chwblhau Haen 2 Prosiect Ymchwil Gweithredol Rhanbarthol Asesu Ffurfiannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2 athro o 194 o ysgolion y rhanbarth yn cydweithio fel timau ymchwil gweithredol o 6-8 ysgol ym maes asesu ffurfiannol dan 	<p>Bu Prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) yn weithredol yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017. Mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn effeithiol, ac fe'i weithredir fesul haen, gan roi egwyddorion addysgegol ar waith mewn</p>		<p>Pob un o athrawon y prosiect wedi eu harfogi'n effeithiol gyda sgiliau ymchwilio, arbenigedd fel arweinwyr addysgu ac ymwybyddiaeth gref o addysgeg.</p> <p>Y 12 egwyddor addysgeg ar waith yn gyson ac effeithiol ar draws ysgolion y rhanbarth sy'n</p>	<p>Mae sylwadau'r athrawon yn gadarnhaol iawn, a gwelwyd bod y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol a hynny ar ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau, a hefyd ar safonau lles, ac agweddau disgyblion at ddysgu.</p> <p>Haen 1 - 27 ysgol / 54 o athrawon. Haen 2 - 193 ysgol / 386 o athrawon. Cyfanswm - 220 ysgol /</p>		<p>Arweinydd Dysgu ac Addysgu</p>	<p>Haen 2 Medi 2019</p>	<p>Asesu ar gyfer Dysgu</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

<p>arweiniad GwE a'r ysgolion Haen 1 (27 ysgol)</p> <p>Cychwyn gweithredu Haen 3 y prosiect (Medi 2019) gyda gweddill ysgolion y rhanbarth. Cydweithio fel timau ymchwil gweithredol dan arweiniad GwE ac Ysgolion Haen 1 a 2.</p> <p>Tud 106</p> <p>Gweithredu rhaglenni OTP OLEV1 (Outstanding Teacher Programme) gydag ysgolion uwchradd penodol. Cefnogi ysgol arweiniol i ddarparu a gweithredu'r rhaglen uchod gyda hyd at 12 ysgol ar y tro.</p>	<p>dosbarthiadau ar sail tystiolaeth gadarn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd cyfarfodydd adolygu a hyfforddiant Haen 2. • Mae 220 o athrawon wedi cofrestru ar Haen 3. • Adroddiad terfynol Haen 1 yn barod. • Trefnwyd hyfforddiant i YCG GwE at fis Medi 2019. <p>Cwblhawyd hyfforddiant Tymor yr Haf. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r hyfforddiant.</p>		<p>cyfranogi. Seiliau cadarn yn eu lle ar gyfer cynllunio a gweithrediad Cwricwlwm i Gymru.</p> <p>Athrawon Haen 1 a 2 yn gweithredu'n effeithiol fel arweinyddys yn eu hysgolion a thu hwnt. Ysgolion Haen 2 a 3 yn cynnal ymchwil gweithredol yn hyderus yn eu hysgolion ac yn gwella a chysoni ansawdd addysgu yn seiliedig ar hyn.</p> <p>Mesurau a holiaduron y prosiect yn dangos cynnydd ac effaith cadarnhaol</p> <p>12 ysgol uwchradd ychwanegol yn datblygu a gweithredu rhaglen OTP yn llwyddiannus.</p>	<p>440 o athrawon. Mae effaith y prosiect felly yn cyrraedd o leiaf 11,000 o ddisgyblion ar draws y rhanbarth (ar sail pob athro yn dysgu 25 o ddisgyblion, ar gyfartaledd).</p> <p>Adroddiad ar weithredu ac effaith Haen 2 i'w gyhoeddi - manylion llawn am effaith ar gael bryd hynny. Er hynny, canfyddiadau cynnar cyfarfodydd adolygu yn dangos effaith a chynnydd cadarnhaol yn ysgolion Haen 2.</p> <p>Nod y rhaglen yw datblygu unigolion i allu arwain ar ddatblygu addysgu yn eu hysgolion, ac felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi safonau addysgu ymhellach o fod yn dda i ragorol • Safonau addysgu yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn dda, o leiaf, efo nodweddion rhagorol • Mae ysgolion yn rhannu hyfforddiant yn llwyddiannus, gan godi safonau'r addysgu ymhellach yn eu hysgolion eu hunain, ac yn yr ysgolion maent yn eu hyfforddi. • Mwy o allu a chynhwysedd mewn ysgolion/dosbarthiadau i wella ymhellach a chynnal cynnydd • Mwy o gynhwysedd ar draws y rhanbarth o ran cefnogaeth a chydweithio ysgol i ysgol 		<p>Haen 3 Medi 2020</p> <p>Medi 2019</p>	
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	------------------------------------------------------	--

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

AMCAN STRATEGOL 6: BUSNES

BLAENORIAETH 6.1 - CYFLAWNI ADOLYGIAD O'R GYLLIDEB A'R GWEITHLU

Gweithredu	Cynnydd - Chwarter 1 (Gweithredu)	RAG Ch1	Mesurau Cynnydd / Targedau 2019-2020	Effaith - Chwarter 1 (Mesurau Cynnydd / Targedau)	RAG Ch1	Yn gyfrifol	Dyddiad targed	Proffil gwariant Ch1
<p>Adolygu'r cynllun ariannol canol tymor gan sicrhau bod lefelau uchel o ddirprwyo i ysgolion yn parhau.</p> <p>Cyflawni archwiliad o'r portffolio presennol o gyfrifoldebau staff.</p> <p>Adolygu'r strwythur staffio presennol.</p> <p>Cynnal adolygiad o werth am arian y cymorth gan yr awdurdod lletyol.</p>	I'w weithredu Hydref 2019 / Gwanwyn 2020 .		<p>Mae'r cynllun ariannol canol tymor yn ateb yr heriau y bydd angen i'r gwasanaeth roi sylw iddynt.</p> <p>Bydd y strwythur staffio newydd mewn sefyllfa well i ddarparu'r gwasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol.</p> <p>Sicrhau bod rôl yr awdurdod lletyol yn cael ei chytuno a'i bod yn cefnogi cyfeiriad diwygiedig y gwasanaeth.</p>	I'w weithredu Hydref 2019 / Gwanwyn 2020.		Rheolwr Gyfarwyddwr	Medi 2020	

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2019-20
Adroddiad Monitro Chwarter 1 (1 Ebrill 2019 – 30 Mehefin 2019)

Atodiad 1

Barn ar gynnydd

Ar derfyn pob chwarter, mae'n ofynnol i'r deilydd penodol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu a'r terfynau amser a gynhwysir yn y cynllun yn cael eu gweithredu, ddarparu adroddiad monitro chwarterol gyfer:

- i. y camau gweithredu
- ii. mesurau cynnydd / targed
- iii. y proffil gwariant.

Statws RAG ar gyfer yr adroddiadau monitro:

Raid dangos statws RAG ar gyfer y camau gweithredu a'r mesurau cynnydd / targed sydd wedi'u hadnabod, fel y nodir isod:

GWYRDD: Ar drac	Cam gweithredu / targed wedi'i fodloni neu mae perfformiad ar drac.
MELYNGOCH: Rhannol ar drac	Mae peryg methu â bodloni'r cam gweithredu / targed a rhaid monitro perfformiad yn fanwl trwy gydol y chwarter nesaf.
COCH: Ddim ar drac	Ni fodlonwyd y cam gweithredu / targed neu ni fydd yn cael ei fodloni.
LLWYD: Ar y gweill	Gweithredu heb ei amserlennu i gychwyn.

Statws RAG ar gyfer tracio proffil gwariant:

GWYRDD	Gwariant ar drac
MELYNGOCH	Tanwariant rhwng 10 - 15% / Gorwariant rhwng 10 - 15%
COCH	Tanwariant dros 15% / Gorwariant dros 15%



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 Medi 2019

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Papur trafod - Adrodd ar berfformiad o Fedi 2019 ymlaen

1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Mae'r papur yn amlinellu'r newidiadau cenedlaethol yn y modd yr adroddir ar asesiadau athrawon, a'r mesurau interim newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn 2019 fel rhan o'r rhaglen o newidiadau sylweddol i addysg yng Nghymru.

1.2 Mae'r papur hwn yn egluro'r materion a godwyd yn y datganiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn, a sut y byddwn o bosib yn adrodd ar berfformiad ar draws Gogledd Cymru o fis Medi ymlaen gan gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

2.0 Cefndir

2.1 Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â nifer o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi cynnal adolygiad sylfaenol o system atebolrwydd ysgolion Cymru.

2.2 Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod y system bresennol a'i defnydd o fesurau perfformiad yn arwain at nifer o ganlyniadau negyddol anfwriadol, yn cynnwys:

- lleihau dewisiadau o fewn y cwricwlwm;
- ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr;

- meincnodi yn cael ei ddefnyddio i sbarduno cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag i annog cydweithrediad;
- llwyth gwaith trymach a diangen i athrawon ac eraill o fewn y system, heb arwain at yr effaith neu les angenrheidiol i ddysgwyr; a
- data'n cael ei gyfuno er mwyn *atebolrwydd* er mai pwrpas creu'r drefn oedd cefnogi *gwella*.

3.0 Materion i'w hystyried

- 3.1 Mewn cyhoeddiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn, a anfonwyd at Gadeiryddion Craffu, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Rheoli'r Consortia Addysg Rhanbarthol ar 16 Gorffennaf 2019, dywedwyd:

"Mae'n wrthgynhyrchiol i ysgolion gael eu rhoi dan bwysau anghymesur ar sail mesurau unigol. Nid yw o fudd i wella ysgolion ac mae perygl iddo danseilio'r newid parhaus mewn diwylliant yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm er mwyn osgoi cyfyngu ar y dewis i ddysgwyr.

Rydym yn gytûn mai dyma'r dull cywir i'w ddilyn ac rydym yn eich cynghori'n gryf i ddefnyddio ystod eang o ddata a gwybodaeth heb eu cyfuno i'ch galluogi i gyflawni eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgol. Bydd gwerthuso perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data agregedig ar lefel awdurdod lleol yn fwy defnyddiol i gefnogi a herio ysgolion unigol gyda'u gwelliant."

- 3.2 Yn y cyswllt hwn, dylid dadansoddi'r data ar y lefel leol ac fel man cychwyn i gwestiynu blaenoriaethau lleol.
- 3.3 Er bod data 2019 ar gael ar hyn o bryd ynghylch perfformiad mesurau hanesyddol (L1, L2, L2+ a 5A*-A), mae cymharu â blynyddoedd blaenorol yn annilys oherwydd yr arfer o gyfrif yr ymgais gyntaf yn hytrach na'r canlyniad gorau.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn yr egwyddorion sydd wedi eu nodi yn y papur.
- 4.2 Aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru, CLILC ac Estyn ar sut orau i ddefnyddio data perfformiad a gwybodaeth i wella perfformiad dysgwyr ac ysgolion.

5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori â Wnaed

8.1 Datblygwyd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd hyn ar y cyd â chydweithwyr mewn ysgolion, Estyn, llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol, gan ystyried gwaith ymchwil rhyngwladol.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adrodd ar berfformiad o Fedi 2019 ymlaen.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Adrodd ar Berfformiad o Fedi 2019 ymlaen

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â nifer o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi cynnal adolygiad sylfaenol o system atebolrwydd ysgolion Cymru.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod y system bresennol a'i defnydd o fesurau perfformiad yn arwain at nifer o ganlyniadau negyddol anfwriadol, yn cynnwys:

- lleihau dewisiadau o fewn y cwricwlwm;
- ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr;
- meincnodi yn cael ei ddefnyddio i sbarduno cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag i annog cydweithrediad;
- llwyth gwaith trymach a diangen i athrawon ac eraill o fewn y system, heb arwain at yr effaith neu les angenrheidiol i ddysgwyr; a
- data'n cael ei gyfuno er mwyn *atebolrwydd* er mai pwrpas creu'r drefn oedd cefnogi *gwella*.

O ganlyniad, derbyniodd ysgolion negeseuon croes ynghylch beth sy'n bwysig o wahanol rannau o'r system. Yn hytrach na rhoi'r ffocws ar ddysgu ac addysgu symudodd y pwyslais tuag at ddiwylliant o gydymffurfio a biwrocratiaeth.

Mewn cyhoeddiad ar y cyd gan **Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn**, a anfonwyd at Gadeiryddion Craffu, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Rheoli'r Consortia Addysg Rhanbarthol ar **16 Gorffennaf 2019**, dywedwyd:

"Mae'n wrthgynhyrchiol i ysgolion gael eu rhoi dan bwysau anghymesur ar sail mesurau unigol. Nid yw o fudd i wella ysgolion ac mae perygl iddo danseilio'r newid parhaus mewn diwylliant yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm er mwyn osgoi cyfyngu ar y dewis i ddysgwyr.

Rydym yn gytûn mai dyma'r dull cywir i'w ddilyn ac rydym yn eich cyngori'n gryf i ddefnyddio ystod eang o ddata a gwybodaeth heb eu cyfuno i'ch galluogi i gyflawni eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgol. Bydd gwerthuso perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data agrededig ar lefel awdurdod lleol yn fwy defnyddiol i gefnogi a herio ysgolion unigol gyda'u gwelliant."

Mae'r papur hwn yn egluro'r materion a godwyd yn y datganiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn, a sut y byddwn o bosib yn adrodd ar berfformiad ar draws Gogledd Cymru o fis Medi ymlaen gan gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Asesiadau Athrawon (o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 3)

Cyflwynwyd newidiadau cenedlaethol dros y ddwy flynedd diwethaf yn y modd yr adroddir ar asesiadau athrawon. Mae hyn yn cefnogi'r amcanion allweddol yn nogfen Llywodraeth Cymru "Cenhadaeth ein Cenedl" trwy sicrhau asesiadau, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system hunan wella.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu, er mwyn i bob dysgwr gyrraedd ei lawn botensial, y dylai fod system asesu ac atebolrwydd gydlynol. Prif bwrpas asesu yw darparu gwybodaeth sy'n llywio penderfyniadau ynghylch sut orau i sicrhau cynnydd yn y modd y mae disgyblion yn dysgu.

Bellach mae mwy o ffocws ar ddefnyddio data mewn hunan asesiadau ysgolion. Yn y system ddiwygiedig caiff ysgolion eu gwerthuso ar sail y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob disgybl.

Atodiad 1

Mae'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i ysgolion i fesur y cynnydd hwn yn cynnwys: data diwedd cyfnod allweddol, data mynediad gwaelodlin, data cynnydd disgyblion dros amser, data gwerth ychwanegol rhwng y gwaelodlin a'r cyfnodau allweddol, data profion diagnostig darllen a rhifedd, data ymchwil-weithredu a phrofion penodol, yn ogystal â chanlyniadau arolygiadau ESTYN.

Tynnwyd ymaith ddata a gyfunwyd yn draddodiadol tuag i fyny (*aggregated upwards*) i bwrpas cymharu. Bellach nid yw meincnodi, cymharu â sefydliadau eraill, data profion darllen a rhifedd a gosod ysgolion ac Awdurdodau Lleol mewn trefn gynghrair yn dderbyniol nac yn bosibl. Ers y llynedd, yr unig ddata cymharol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn y cyfnodau allweddol yma yw'r cyfartaleddau Cenedlaethol ar gyfer diwedd y cyfnodau allweddol hyn.

Hefyd, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ddatganiad ar dargedau perfformiad ysgolion ym Mehefin 2019. Meddai:

'.....Rwyf am ei gwneud yn gwbl glir mai dim ond fel cyfrwng i ategu gwaith hunanwerthuso ysgolion y dylid defnyddio targedau, ac na ddylid eu cyfuno yn fesur perfformiad y bydd ysgolion yn atebol i awdurdodau lleol ar ei sail.'

Bydd y newidiadau diweddar hyn yn y gofynion ar gyfer adrodd ar asesiadau yn cryfhau cywirdeb asesu. Bydd yn gostwng lefelau chwyddedig a "chwarae'r gêm" ac yn sicrhau fod pob ysgol yn edrych yn agos ar bob dysgwr, nid dim ond y dysgwyr ffiniol sy'n dylanwadu ar a yw ysgol yn cyrraedd mesur cul neu beidio.

Bydd trefniadau cenedlaethol yn rhoi pwyslais newydd ar Asesu ar gyfer Dysgu fel rhan hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu; mae'n gam arwyddocaol ymaith oddi wrth gasglu gwybodaeth am berfformiad pobl ifanc fesul ysgol am resymau atebolrwydd.

Ni fydd data asesiadau athrawon a data Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd mwyach yn cael eu cyhoeddi ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chonsortia. Mae hyn yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a gynhelir.

Trefniadau a fydd yn parhau:

- Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd ac Asesiadau Athrawon ar gyfer dysgwyr unigol; fodd bynnag ni chyhoeddir gwybodaeth genedlaethol ynghylch meincnodi ar lefel ysgol.
- Rhaid i benaethiaid ysgol adrodd ar berfformiad ysgol i rieni ac oedolion sy'n ddysgwyr ym mhob blwyddyn ysgol.
- Rhaid i Gyrrff Llywodraethol gynhyrchu adroddiadau blynyddol i rieni, llawlyfrau ysgol, cynlluniau datblygu ysgol a gosod targedau perfformiad ac absenoldeb.
- Bydd ysgolion, cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn parhau i gael mynediad at eu data eu hunain (ynghyd â data lefel genedlaethol) i bwrpas hunan werthuso.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i gasglu data ar lefel dysgwyr unigol er mwyn sicrhau tryloywder ar lefel perfformiad cenedlaethol ac er mwyn hysbysu polisïau.

Trefniadau a fydd yn newid:

- Ni chyhoeddir gwybodaeth gymharol ynghylch asesiadau a phrofion athrawon, mewn perthynas ag ysgolion eraill o fewn awdurdod lleol neu "deulu o ysgolion".
- Ni fydd Llywodraeth Cymru mwyach yn cynhyrchu na chyhoeddi Adroddiadau Cymharu Ysgolion a Setiau Data Craidd Cymru Gyfan i ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas â data asesiadau athrawon.
- Nid yw gwefan Fy Ysgol Leol bellach yn cynnwys data asesiadau athrawon islaw'r lefel genedlaethol (ers 2018).

Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 2019

Cyflwynwyd mesurau interim newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn 2019 fel rhan o'r rhaglen o newidiadau sylweddol i addysg yng Nghymru.

Bydd y data cenedlaethol a gesglir ar gyfer ysgolion unigol yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgais gyntaf. Bydd y data a ddarperir yn rhanbarthol ar gyfer ysgolion unigol ac Awdurdodau Lleol hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgais gyntaf.

Mae'r Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ) / Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) wedi bod yn cyhoeddi eu data a pharatoi datganiadau i'r wasg ar sail y "canlyniad gorau" a gafwyd gan ddsygwyr 16 oed yng nghyfresi mis Tachwedd a'r haf. Bydd gwahaniaeth rhwng y data "ymgais gyntaf" a'r data "canlyniad gorau".

Ac felly, ar draws sawl dangosydd, ni fydd modd cymharu ffigyrau 2019 gyda'r perfformiad blaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos y mesurau interim newydd a'r fethodoleg a ddefnyddir wrth fesur y canlyniadau. Mae hefyd yn dangos y gwahaniaethau allweddol rhwng y drefn newydd a blynyddoedd a fu.

Measur Interim	Dull Mesur	Yr hyn sy'n wahanol i flynyddoedd cynharach a pham na ellir cymharu
Capiro 9	<p>Mae'r Sgôr Pwyntiau Capiro 9 yn mesur cyfartaledd sgoriau'r dyfarniadau gorau i bob disgybl unigol o fewn y cohort, wedi'i gapio ar foliwm penodedig o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfatebol.</p> <p>Rhaid i dri o'r naw slot ymwneud â dyfarniadau pynciau neu gymwysterau penodol er mwyn cyfrannu unrhyw bwyntiau tuag at y mesur. Mae'r slotiau hyn oll o faint un TGAU ac yn diffinio'r gofynion ar gyfer llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth TGAU yn unig.</p> <p>Gall y radd TGAU orau mewn llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg gyfrannu tuag at y slot llythrennedd.</p> <p>Gall y radd TGAU orau yn y naill fathemateg neu'r llall, neu fathemateg–rhifedd gyfrannu at y slot rhifedd.</p> <p>Gall y radd TGAU orau mewn gwyddoniaeth gyfrannu at y slot gwyddoniaeth (ar hyn o bryd mae hyn wedi ei gyfyngu i ddyfarniadau yn swît gwyddoniaeth TGAU Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru sydd ar gael i rai sy'n astudio: bywydeg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl) gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Dim ond ymgais gyntaf y disgybl fydd yn cyfrif ✓ Canlyniadau Gwyddoniaeth CBAC yn unig

Atodiad 1

	Bydd y chwech cymhwyster sy'n weddill yn cynnwys perfformiad gorau'r disgybl mewn naill ai TGAU a/neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol.	
Y Mesur Llythrennedd	Mesur cyfartaledd sgoriau pob disgybl unigol yn y cohort, cymryd y radd orau a ddyfarnwyd i ddisgybl mewn unrhyw un o'r TGAU canlynol: llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg.	Mesur newydd yn 2019 – dim ond yr ymgais gyntaf fydd yn cyfrif, gyda Llenyddiaeth hefyd yn cael ei dderbyn o fewn y mesur hwn.
Y Mesur Rhifedd	Mesur cyfartaledd sgoriau pob disgybl unigol yn y cohort, cymryd y radd orau mewn unrhyw un o'r TGAU canlynol a ddyfarnwyd i ddisgybl: y naill fathemateg neu'r llall, neu fathemateg–rhifedd.	Mesur newydd yn 2019 – dim ond yr ymgais gyntaf fydd yn cyfrif.
Y Mesur Gwyddoniaeth	Mesur cyfartaledd sgoriau pob disgybl unigol yn y cohort, cymryd y radd orau mewn TGAU gwyddoniaeth a ddyfarnwyd i ddisgybl (ar hyn o bryd mae hyn wedi ei gyfyngu i ddyfarniadau yn swît gwyddoniaeth TGAU Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru sydd ar gael i rai sy'n astudio: bywydeg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl) gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) – cafodd y rhain eu hadnabod fel rhai a all gyfrannu tuag at y mesurau gwyddoniaeth.	Mesur newydd yn 2019 – dim ond yr ymgais gyntaf fydd yn cyfrif.
Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru	Mesur cyfartaledd sgoriau dyfarniad Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru pob disgybl unigol yn y cohort, boed y dyfarniad Sylfaenol (Lefel 1) neu'r dyfarniad Cenedlaethol (Lefel 2).	Yn cael ei adrodd ar wahân fel prif ddangosydd am y tro cyntaf yn 2019.

Yn y cyswllt hwn, dylid dadansoddi'r data ar y lefel leol ac fel man cychwyn i gwestiynu blaenoriaethau lleol.

Er bod data 2019 ar gael ar hyn o bryd ynghylch perfformiad mesurau hanesyddol (L1, L2, L2+ a 5A*-A), mae cymharu â blynyddoedd blaenorol yn annilys oherwydd yr arfer o gyfrif yr ymgais gyntaf yn hytrach na'r canlyniad gorau.